# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU**

Dyddiad ac Amser

**10.00 y.b., DYDD IAU, 28AIN IONAWR, 2016**

Lleoliad

**Siambr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon.**

*** NODER ***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Pwynt Cyswllt

**Glynda O'Brien**

**(01341) 424301**

**GlyndaOBrien@gwynedd.gov.uk**

(Dosbarthwyd: 22/01/16)

## PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU

**AELODAETHP (18)**

### Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Alan Jones Evans
E. Selwyn Griffiths
Sian Wyn Hughes
Ann Williams
R. H. Wyn Williams
Aled Ll. Evans
Christopher Hughes
Elin Walker Jones
R. Hefin Williams
Gareth A. Roberts

### Annibynnol (4)

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams
Dewi Owen
Beth Lawton
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (2)

Y Cynghorwyr

Alwyn Gruffydd
Peter Read

### Llafur (1)

Y Cynghorwyr Sion W. Jones

### Aelod Unigol (1)

Y Cynghorwyr Linda Ann Jones

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

## AELODAU CYFETHOLEDIG:

## Hefo pleidlais ar faterion addysg yn unig

| | |
|---|---|
| *Dylan Davies* | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Meirionnydd |
| Rita Price | Yr Eglwys Gatholig |
| Rhian Roberts | Cynrychiolydd Rhieni LLywodraethwyr Dwyfor |
| Disgwyl Enwebiad | Cynrychiolydd Rhieni Llywodraethwyr Arfon |
| Canon Parchedig Robert Townsend | Yr Eglwys yng Nghymru |
| Neil Foden | Undeb Athrawon |
| David Healy | Undeb Athrawon |

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I ddatgan unrhyw ddatganiad o fuddiant personol. .

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION — 1 - 14

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2015.

## 5. STRATEGAETH LLETYA POBL HYN — 15 - 37

***Aelod Cabinet: Cyng. W. Gareth Roberts***

I ystyried adroddiad Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd ar yr uchod.

10.00 a.m. – 10.45 a.m.

## 6. TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015-16 (CHWARTER 2) - GOFAL — 38 - 43

***Aelod Cabinet: Cyng. W. Gareth Roberts***

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar yr uchod.

10.45 a.m. – 11.30 a.m.

**7.** **RHAGLEN WAITH - ADRODDIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD 2014 / 15 (AROLYGAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - AGGCC)** 44 - 70

***Aelod Cabinet: Cyng. W. Gareth Roberts***

I ystyried adroddiad mewn ymateb i adroddiad gwerthuso perfformiad yr Arolygaeth Goal a Gwasanethau Cymdeithasol (AGGCC).

11.30 a.m. – 12.15 p.m.

**8.** **PANEL RHIANT CORFFORAETHOL**

I ethol aelod i wasanaethu ar y Panel Rhiant Corfforaethol i olynu y Cyng. Elin Walker Jones yn dilyn ei ymddiswyddiad diweddar o'r Panel.

12.15 p.m. – 12.25 p.m.

# PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU 26/11/15

**YN BRESENNOL:**

**Y Cynghorwyr:** Anwen J. Davies, Alan Jones Evans, Aled Ll. Evans, E. Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Sian Wyn Hughes, Elin Walker Jones, Linda Ann Jones, Sion W. Jones, Eryl Jones-Williams, Ann Williams, Eirwyn Williams, R. Hefin Williams a R. H. Wyn Williams

**SWYDDOGION:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Democratiaeth a Chyflawni), Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu), Glynda O'Brien (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**Hefyd yn Bresennol:**

**Ar gyfer Eitemau 5, 6, a 7 isod:**
Y Cyng. Mair Rowlands, Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc
Y Cyng. W. Gareth Roberts, Aelod Cabinet Gofal, Oedolion a Iechyd
Marc Roberts, Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol
Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Corfforaethol
Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
Manon Williams, Rheolwr Ardal
Alwena Leadbitter, Uwch Ymarferydd

**Ar gyfer Eitemau, 8 a 9 isod:**
Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corforaethol
Arwyn Thomas, Pennaeth Addysg
Garem Jackson, Swyddog Gwella Ansawdd Addysg
Gwern ap Rhisiart, Uwch Reolwr Aghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad
Eleri Llywelyn Owen, Rheolwr Prosiect
Ffion Hughes, Swyddog Cefnogol

**ETHOL CADEIRYDD**

**Penderfynwyd: Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd o'r cyfarfod, etholwyd y Cynghorydd Selwyn Griffiths i gadeirio'r cyfarfod hwn.**

**1. YMDDIHEURIADAU**

Y Cynghorwyr Sian Wyn Hughes (p.m.), Linda Ann Wyn Jones (p.m.), Beth Lawton (a.m./p.m,.), Dewi Owen (a.m./p.m.), Peter Read (a.m./p.m.), Gareth Thomas (Aelod Cabinet Addysg – a.m./p.m.) , Dylan Davies (Cynrychiolydd Llywodraethwyr Meirionnydd - a.m./p.m.), Mrs Rita Price (Yr Eglwys Gatholig – a.m./p.m).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

**Targed Arbedion Ysgolion**

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater brys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf

Llywodraeth Leol 1972 oherwydd bod y mater wedi codi ers cyfarfod diwethaf y pwyllgor, bod penderfyniad diweddar wedi ei wneud gan y Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 18 Tachwedd 2015 a bod barn y dylid ei graffu cyn bod gweithredu arno.

Eglurodd y Cadeirydd y derbyniwyd cais gan y Cynghorydd Alwyn Gruffydd i'r pwyllgor drafod targed arbedion ysgolion a gwahoddwyd yr aelod i ymhelaethu ymhellach.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd at drafodaeth diweddar yng nghyfarfod o Fforwm Cyllideb Ysgolion ar 18 Tachwedd 2015 a oedd yn gyfarfod cynhennus pryd y penderfynwyd argymell i'r Cabinet doriad o £1.6m i'r sector cynradd a £680,363 i'r sector uwchradd. Roedd yr Aelod o'r farn bod tensiwn rhwng y cynradd a'r uwchradd, ysgolion mawr, canolig a bach, gyda'r toriad yn golygu dosbarthiadau o hyd at 40 o blant i rai ysgolion ac yn ei dro yn effeithio ar safonau addysg y Sir. Teimlwyd bod y toriad felly yn tanseilio'r egwyddorion ac y dylai'r Pwyllgor Craffu hwn gael y cyfle i ystyried dwyster effaith y toriadau ar ysgolion cyn i'r penderfyniad gael ei fabwysiadu gan y Cabinet.

Esboniodd yr Uwch Reolwr Democrataidd a Chyflawni, wrth fabwysiadu'r Strategaeth Ariannol yn y Cyngor llawn ym Mawrth 2015, penderfynodd y Cyngor fabwysiadu Strategaeth Ariannol oedd yn cynnwys "Rhoddi targed £4.3m i'r gyllideb ysgolion". Deallir mai'r hyn y mae penderfyniad y Fforwm Cyllido Ysgolion yn ei wneud yw penderfynu sut y mae gwireddu elfen o hynny. Felly, roedd y Fforwm Cyllideb Ysgolion yn gweithredu ar benderfyniad y mae'r Cyngor eisoes wedi ei wneud.

Eglurodd y Pennaeth Addysg bod ysgolion yn wynebu targed o £4.3m o doriadau ac wedi canfod oddeutu £2m o arbedion a bod gwahaniaeth barn o sut y byddir yn gwireddu'r gweddill o £2.3m. Atgoffwyd y Pwyllgor bod y Cyngor yn wynebu bwlch o £50m gyda £9m ohono yn cael ei wireddu drwy dreth y Cyngor. Nodwyd bod y Cyngor yn ariannu ysgolion yn hael o'i gymharu ag awdurdodau eraill yng Nghymru a rhaid cofio bod 8 allan o'r 15 ysgol uwchradd yn rhai lleiaf yng Nghymru.

Daethbwyd i gyfaddawd yn y Fforwm Cyllideb Ysgolion i rannu gweddill y targed arbedion o £2,320,000 yn unol ag opsiwn toriad B a gyflwynwyd i'r Fforwm h.y £1,642,151 i'r sector cynradd a £680,363 i'r sector uwchradd, yn ddarostyngedig i'r amodau isod:

- Cadw'r arbedion o £4.3m yn sefydlog am y 3 blynedd nesaf hyd at 2018
- bod arbedion trefniadaeth ysgolion yn cael ei ail-gylchu i'r targed arbedion o £2,320,00 i leddfu toriad ysgolion yn 2018/19.

Mewn ymateb, cyfeiriodd y Cynghorydd Alwyn Gruffydd at adroddiad ESTYN ar Ysgol gynradd gyda 28 o ddisgyblion yn ddiweddar a oedd yn nodi bod yr Ysgol yn rhoi gwerth am arian a theimlwyd nad oedd y Cyngor yn rhoddi ystyriaeth digonol i hyn. Pwysleisodd yr angen i wybod beth yw'r ymdeimlad ar lawr gwlad i'r toriadau arfaethedig ac felly yn fater pwysig i'w graffu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

- ymddengys mewn rhai ardaloedd bod athrawon yn ymddeol ond yn cael eu hail-gyflogi fel athrawon llanw gan amddifadu pobl ifanc sy'n dod allan o Golegau o waith
- cwestiynwyd faint o ysgolion sydd dan warchodaeth
- cwestiynwyd maint balansau ysgolion rhai ysgolion ac oni ddylid cymryd hyn i ystyriaeth
- a fydd y toriadau yn effeithio ar ansawdd addysg

Awgrymwyd o ran gweithredu y ffordd ymlaen, i ystyried y mater ymhellach yng nghyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu hwn ar 15 Rhagfyr.

**Penderfynwyd: Gofyn i'r Pennaeth Addysg gyflwyno adroddiadau a gyflwynwyd i'r Fforwm Cyllideb Addysg i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu ar 15 Rhagfyr, gan sicrhau presenoldeb swyddog priodol, a fyddai'n gallu ymateb i ymholiadau Aelodau ynglŷn â'r gyllideb. Yn ogystal, byddir yn ddefnyddiol i dderbyn engreifftiau o beth fyddai effaith toriad opsiwn B ar ysgolion unigol bach, canolig a mawr eu mhaint.**

**4. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 22 Medi 2015.

**5. ADRODDIAD GWERTHUSO PERFFORMIAD 2014/15 (AROLYGAETH GOFAL A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL - AGGCC)**

Cyflwynwyd adroddiad gwerthuso perfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2014/15 gan Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol.

(a) Tywyswyd yr Aelodau drwy gynnwys yr adroddiad gan Mr Marc Roberts, AGGCC, a oedd yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd. Tynnwyd sylw at:

- cynnydd a wnaed yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru)
- gwell aliniad rhwng y Cyngor ehangach a'r adrannau
- ymdrechion i weithio'n fwy cost effeithiol ac effeithlon ac wedi cyfrannu at alluogi'r Cyngor i haneru ei ddiffyg ariannol gydag arbedion effeithlonrwydd pellach i'w gwireddu dros y blynyddoedd nesaf
- canlyniadau da ar gyfer plant sy'n derbyn gofal
- y newidiadau ym mhenodiadau yr Aelodau Cabinet sydd yn cefnogi'r Gwasanaeth Cymdeithasol a'u cyfrifoldebau newydd
- newidiadau mewn arfer a diwylliant o fewn y Gwasanaeth Oedolion

Noda'r adroddiad:

- bod y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i nifer o bobl mewn cartrefi gofal
- bod angen annog y gwelliannau i sustemau diogelu corfforaethol yn cael eu cyflawni'n amserol

- bod Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn heriol i'r gwasanaeth ac yn faes sydd angen sylw
- bod AGGCC yn bwriadu ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl yn ystod y flwyddyn
- adnabuwyd bod taliadau uniongyrchol yn parhau i fod yn isel iawn
- adnabuwyd yr angen i gefnogi gofalwyr ymhellach
- o safbwynt plant a phobl ifanc, nodwyd bod y perfformiad yn gwella yn flynyddol gyda chyrhaeddiadau da i blant mewn gofal

O safbwynt cefnogi y Gwasanaethau Cymdeithasol, adnabuwyd yr heriau a wynebwyd yn y Gwasanaeth Oedolion a'r capasiti ac arweinyddiaeth broffesiynol yn y maes hwn. Adnabuwyd yr angen i sicrhau bod digon o amser yn cael ei roi i'r sustemau newydd.

(b) Mewn ymateb, mynegodd y Gyfarwyddwraig Corfforaethol bod yr adroddiad ar y cyfan yn bositif ac roedd yn falch bod Rheolwyr yn adnabod lle mae angen gwella. Ategwyd bod perthynas dda rhwng y Bwrdd Iechyd a'r Gwasanaethau Cymdeithasol a bod penodiad Ffion Johnstone fel Cyfarwyddwr Ardal yn sicr wedi bod o gymorth i wneud y camau ymlaen. Cadarnhawyd bod bwriad i gyflwyno rhaglen waith yn deillio o argymhellion y AGGCC i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu hwn ar 15 Rhagfyr gan sicrhau eu bod yn plethu hefo cynlluniau gweithredu eraill sydd eisoes mewn lle.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu'r adroddiad ac fe amlygwyd y sylwadau isod:

(i) Mynegwyd bryder ynglyn ag ôl-groniad mewn prosesu asesiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid.

Mewn ymateb, tra'n derbyn y sylw esboniwyd bod bid ar gyfer adnodd dros dro wedi ei gyflwyno i geisio lleihau a chael gwared a'r ôl-groniad. Nodwyd ymhellach mai dim ond gweithwyr hefo cymhwyster penodol sydd yn gallu ymdrin a'r gwaith hwn.

Pwysleiswyd mai nid ymarfer y Cyngor sydd wedi creu y cynnydd ond newidiadau yn deillio o achsion cyfreithiol mewn ardaloedd eraill.

(ii) Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a phrosesu cwynion gan unigolion, eglurodd Mr Marc Roberts bod gan AGGCC ddiddordeb mewn clywed profiadau unigolion ac phe byddai unigolyn yn cyflwyno cwyn, yn naturiol fe ystyrir y mater.

(iii)Croesawyd yr adroddiad a dylid bod wedi gweithredu ar weithdrefnau cynllun Alltwen flynyddoedd yn ôl oherwydd ymddengys bod unigolion yn fodlon gyda'r gwasanaeth sydd yn rhoi unigolion yn ganolog. Ym marn Aelod, dylid rhoi mwy o gyhoeddusrwydd i'r materion positif.

(iv) Mynegwyd bod y Gwasanaeth Cymdeithasol wedi bod trwy gyfnod anodd yn sgil newidiadau i staffio, a.y.b. a rhaid gwerthfawrogi ymroddiad y staff mewn amser heriol difrifol iawn ymhob maes. Teimlwyd, fel gwasanaeth sy'n monitro, bod gwir angen i'r AGGCC fel sefydliad cenedlaethol sicrhau y dylid codi pryderon wrth y Llywodraeth ynghylch cyllido Gwasanaethau Cymdeithasol i'r dyfodol. Nodwyd bwysigrwydd i gynnal y gwasanaeth ac yn enwedig lle mae

gwir angen buddsoddi mwy mewn meysydd fel iechyd meddwl.

(vi) Gofynnwyd a yw trefniadau yn ei le i wrthsefyll y toriadau a pha mor fregus ydoedd y gwasanaeth, yn enwedig o safbwynt absenoldebau salwch staff a phwysau gwaith ychwanegol ar staff mewn gwaith arbenigol.

Mewn ymateb, esboniodd Mr Marc Roberts bod trosiant staff yn y gorffennol yn uchel o ran gweithwyr cymdeithasol ond o'r hyn a welir yn ddiweddar bod y gweithlu yng Ngwynedd yn sefydlog ac yn brofiadol. Cydnabuwyd bod y Tim Rheoli o dan bwysau ac yn ceisio adnabod y prif elfennau o risg o ran pwysau. O gymharu ag awdurdodau eraill, nodwyd bod Cyngor Gwynedd mewn sefyllfa gymharol dda.

Fodd bynnag, roedd yn ymwybodol o'r broses Her Gwynedd a'r toriadau arfaethedig ac yn amlwg gall fod yna risgiau o ran toriadau yn cael effaith andwyol ar y gwasanaethau.

(vii) Gofynnwyd a oedd AGGCC yn ystyried ansawdd y gwasanaeth yn erbyn y toriadau?

Mewn ymateb, eglurwyd bod AGGCC yn edrych ar ganlyniadau i unigolion ynghyd ag ystyried perfformiad drwy gymharu gwariant. Nodwyd ymhellach bod gwariant yn ystyriaeth ond ddim yn holl bwysig o ran y canlyniadau.

(viii) Mynegwyd bryder bod risgiau ynghlwm gyda'r toriadau a gofynnwyd a yw AGGCC yn fodlon gyda'r gwaith a'r gweithdrefnau i ymdrin a'r risgiau?

Mewn ymateb, nododd Mr Marc Roberts bod yr arbedion sydd wedi eu cyflawni hyd yma yn ymddangos yn rhai ystyrlon ac yn cymryd mantais o gyfleoedd sydd wedi codi. Fodd bynnag, mynegwyd bod toriadau i wasanaethau yn dra wahanol ond o'r hyn a gyflawnwyd eisoes nid oedd arwydd bod hyn yn cael ei wneud mewn modd anystyriol .

(x) Nodwyd bod taliadau uniongyrchol yn fodd da o ran cynnal a hybu annibynniaeth. Gofynnwyd sut y gellir sicrhau gweithredu sustem taliadau uniongyrchol yn effeithiol?

Mewn ymateb, eglurodd y Gyfarwyddwraig Corfforaethol ei siom bod cyfradd taliadau uniongyrchol yn isel er i'r gwasanaeth geisio hyrwyddo ac o bosib nad oedd teuluoedd yn dymuno cymryd cyfrifoldeb. Hyderir y bydd y trefniadau newydd yn rhoi sefydlogrwydd i unigolion a gobeithio y gwneith hyn wella.

Ychwanegodd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, bod angen gwneud ymdrechion i sicrhau bod y gefnogaeth gywir i deuluoedd i reoli arian yn effeithiol ac i gaffael gwasanaethau gofal. Hyderir y bydd mwy o deuluoedd yn cymryd rheolaeth dros eu trefniadau gofal trwy'r drefn taliadau uniongyrchol ac fe sicrhawyd y byddir yn monitro y gwariant, yn seiliedig ar sampl o deuluoedd. Nodwyd pwysigrwydd sefydlu rhwydwaith i'w galluogi i wneud defnydd effeithiol o daliadau uniongyrchol.

(xi) Cyfeiriwyd o fewn yr adroddiad at wendidau craffu ac fe nododd Mr Marc

Roberts y meysydd canlynol fel rhai sy'n bwysig i'r craffwyr:

- Trefniadau moderneiddio
- Cynllun Alltwen
- Maes diogelu

(xii) Nododd y Gyfarwyddwraig Corfforaethol y bydd y Ddeddf yn weithredol ym mis Ebrill ac yn amlwg bod llawer o waith i'w gyflawni ac fe ddisgwylir am gôd ymarfer i lawer o'r gwaith. Fe fyddir yn cyflwyno adroddiad i'r Cabinet ac addawyd i rannu'r wybodaeth gyda'r Pwyllgor Craffu hwn hefyd.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r Gyfarwyddwraig Corfforaethol gyflwyno'r cynllun gweithredu i gyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn ar 15 Rhagfyr 2015.**

**6. ADRODDIAD AR WAITH Y PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION BREGUS**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc yn amlinellu'r hyn a gyflawnwyd gan y Panel rhwng Ebrill 2014 a Mawrth 2015.
Ynghyd ag archwiliadau allanol a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod, a'r bwriadau ar gyfer y dyfodol.

Nodwyd bod yr adroddiad yn canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol diogelu yn hytrach nac achosion penodol yn y maes. Pwysleiswyd bod trefniadau eraill statudol yn bodoli yn rhanbarthol ar gyfer plant ac oedolion bregus. Ymgais y Panel uchod ydoedd sicrhau bod y trefniadau yn gadarn a'r gwir lwyddiant ydoedd profi bod y gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i unigolion.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau graffu'r adroddiad, ac fe ymatebodd yr Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc a'r swyddogion yn briodol iddynt fel a ganlyn:

(i) o safbwynt faint o achosion o drefniadau chwythu'r chwiban a fu, addawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol anfon y ffigyrau at Aelodau'r Pwyllgor Craffu
(ii) mai'r Cynghorydd Annwen Daniels a benodwyd fel pencampwr Plant a Phobl Ifanc - Rhiantu Corfforaethol
(iii) rhoddwyd addewid y byddir yn trafod gydag Aelod ynglyn ag asesiad unigolion hefo anableddau sy'n dod allan o'r Coleg a ddim yn cael eu cyfeirio i wasanaeth gofal dydd
(iv) bod materion gwrthfwlio "Cyber" yn cael eu hychwanegu i'r polisiau perthnasol a sicrhawyd nad oedd yn broblem enfawr yng Ngwynedd
(v) bod ysgolion yn allweddol i drefniadau diogelu plant a phobl ifanc a phwysleiswyd bwysigrwydd i gyfathrebu a hwy. Cadarnhawyd bod nifer uchel o gyfeiriadau yn cael eu cyflwyno o ysgolion a'u bod yn derbyn gwahoddiad i gyfarfodydd a gynhelir o dderbyn unrhyw gyfeiriad. Cydnabuwyd ymhellach bod ysgolion yn greiddiol i gyfrannu at drafodaethau. Tra'n derbyn bod staff ysgolion yn ei chael yn anodd presenoli eu hunain mewn cyfarfodydd, sicrhawyd eu bod yn derbyn

adroddiadau ysgrifenedig ac nad oedd unrhyw bryder ynglyn a chydweithio.

(vi) O safbwynt sut y rhoddir hyder mewn plant i chwythu chwiban yn fuan, eglurwyd bod chwythu chwiban ac annog hyder yn ddau beth gwahanol. Ychydig iawn o blant sydd yn cyfeirio eu hunain, fe gyflwynir cyfeiriadau drwy'r asiantaethau eraill perthnasol. Yng nghyswllt trefniadau cyn oed ysgol, nodwyd bod bydwragedd yn hynod bwysig. Sicrhawyd bod sustemau effeithiol yng Ngwynedd a bod perthynas dda ar lawr gwlad.

(vii) Mai ychydig iawn o gyfeiriadau a dderbynnir gan rieni ynglyn a bwlio ac eglurwyd y broses y gallent ddilyn drwy ffonio Galw Gwynedd, rhifau ffon dynodedig i'r Tim sydd wedi eu lleoli ym Mhwllheli a hefyd rhifau ffon tu allan i oriau gwaith.

(viii) Bod plant yn treulio llawer o'u hamser mewn ysgolion a rhan o waith y Panel yw sicrhau bod pob Adran, gan gynnwys Aelodau etholedig yn chwarae rhan yn y trefniadau.

(ix) O safbwynt arolygu sut mae ysgolion yn ymdrin a bwlio, esboniwyd bod y Cyfarwyddwr Corfforaethol wedi cwrdd gyda'r Pennaeth Addysg yn ddiweddar a sicrhawyd bod trefniadau mewn lle i:

- Benodi swyddog diogelu plant
- Edrych ar y polisiau a gweithdrefnau gan gynnwys yr elfen bwlio

(x) Bod gan pob corff llywodraethol bencampwr i ymdrin a diogelu plant

(xi) Bod cyfrifoldeb ar athrawon i gyfeirio unrhyw achos sy'n wybyddus iddynt o gam drin yn y cartref, a sicrhawyd nad oedd pryder wedi ei amlygu i'r Panel nac ychwaith gan y Pennaeth Addysg ynglyn a chapasiti ysgolion i wneud hyn

(xii) Nodwyd y pryderon ynglyn ag adroddiad AGGC ar gartref preswyl preifat Plas y Bryn, Bontnewydd. Esboniwyd bod trefniadau mewn lle i arolygwyr archwilio cartrefi preswyl a bod trafodaethau yn mynd rhagddo ar gyfer mabwysiadau'r trefniadau gorau ond cydnabuwyd nad oedd yn faes hawdd i'w ddatrys. Fe fyddir yn cyflwyno adroddiad i gyfarfod paratoi nesaf y Pwyllgor Craffu hwn ar 15 Rhagfyr ynglŷn â threfniadau ac yn benodol i drafod goblygiadau yn deillio o adroddiad AGGC ar y cartref penodol uchod.

(xiii) Disgwylir ddiweddariad ar drefniadau a gweithdrefnau ar gyfer diogelu oedion bregus yn sgil argymhellion adolygiad Winterbourne ac fe sicrhawyd y byddir yn rhannu'r wybodaeth gyda Aelodau.

(xiv) Mynegwyd siom nad oedd cyfeiriad yn y rhaglen waith at unigolion gydag anabledd dysgu.

(xv) Sicrhawyd y byddir yn rhyddhau copi o'r adroddiad prosiect sicrhau perchnogaeth Cyngor gyfan i'r maes diogelu i'r Aelodau

(xvi) Cadarnhawyd bod proses yn ei le i sicrhau archwiliadau DBS pob 3 blynedd ac yn cael ei fonitro gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol

(xvii) Sicrhawyd y byddir yn ail-drefnu'r cyfarfod ym Meirion/Dwyfor ac Arfon hefo rhieni pobl ifanc gydag anabledd dysgu ac ymddiheurwyd am ohirio'r cyfarfod ym mis Mai ond bod hyn am amrywiol resymau.

**Penderfynwyd: (a) Derbyn a nodi cynnwys yr adroddiad.**

**(b) Gofyn i'r swyddogion perthnasol gyflwyno gwybodaeth pellach ar y canlynol i gyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu sydd i'w gynnal ar 15 Rhagfyr 2015:**

- **Ffigyrau ar y nifer o achosion chwythu'r chwiban**

**Goblygiadau yn deillio o adroddiad AGGCC ar gartref preswyl preifat Plas y Bryn, Bontnewydd**

**7. ADRODDIAD AR GALLUOGI O FEWN TREFNIADAU GWAITH NEWYDD**

Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd yn amlinellu trefniadau newydd galluogi.

Gosododd yr Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd y cyd-destun drwy nodi bod y cynllun galluogi yn ffordd o ymateb yn ddwys i broblemau unigolyn am gyfnod byr, a hynny er mwyn ceisio adfer sgiliau byw unigolyn mor fuan â phosib ac osgoi creu dibyniaeth. Daeth tystiolaeth bod gormod o unigolion yn derbyn yr ymyrraeth pan nad oeddent wirioneddol ei angen. Felly penderfynwyd adolygu'r trefniadau drwy ddefnyddio egwyddorion *Ffordd Gwynedd* a newid diwylliant a meddylfryd yn gyfan gwbl a chynnig cyfleoedd i roi unigolion yn ganolog.

Derbyniwyd cyflwyniad gan Manon Williams (Rheolwr Ardal) ac Alwena Leadbitter (Uwch Ymarferydd, Adran Oedolion Iechyd a Llesiant) yn amlinellu gwaith y tim yn Alltwen a sut mae'r gwaith yn ymgorffori'r cynlluniau galluogi yn llawer mwy naturiol ac yn fwy penodol i unigolyn. Yn unol â'r drefn newydd gwneir trefniadau gyda'r unigolyn ar yr amser ac yn y man cywir.

Gofynnwyd i Aelodau gymryd rhan mewn ymarferiad ac fe nodwyd y sylwadau canlynol ganddynt:

- Bod rhai unigolion angen mwy o ofal megis gan therapyddion, a.y.b.
- Pwysigrwydd bod y cynllun yn ysgafnhau baich ar deuluoedd
- Os yw'r defnyddwyr yn teimlo'n well, dylent allu dweud wrth y gofalwyr
- Bod angen targedu'r cynllun i'r unigolion sydd ei wir angen
- Croesawu'r cynllun ond yn hynod bwysig bod mesuriadau pendant ar gyfer mesur pa wahaniaeth a wna'r cynllun i unigolion
- Rhaid bod yn glir ynglyn a phryd mae ungolion yn cyrraedd eu hamcanion
- Yr angen i ehangu'r cynllun i ardaloedd Meirionnydd / Dwyfor ac ar gael 7 diwrnod o'r wythnos oherwydd pryderwyd am rai unigolion sydd yn dod allan o ysbytai yn ystod y penwythnos a dim trefniadau yn eu lle ar eu cyfer
- Bod angen trwytho staff megis nyrsus ar y wardiau i gydweithio a'r egwyddorion er mwyn rhoi anghenion yr unigolyn gyntaf

Mewn ymateb i rai o'r sylwadau uchod, esboniodd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, bod y berthynas hefo'r Bwrdd Iechyd yn hynod allweddol er mwyn lledaenu'r cynllun Alltwen i leoliadau eraill. Yn ogystal, nodwyd bod rôl y gweithlu yn cynnwys Gweithwyr Cymdeithasol, Therapyddion, nyrsus, a.y.b. yn allweddol. Fodd bynnag, roedd cryn waith i'w gyflawni eto gan ei fod yn newid sylweddol i staff, aelodau a defnyddwyr y gwasanaeth a hyderir yn raddol y gellir ehangu'r trefniadau newydd ar draws y Sir.

Ategodd yr Aelod Cabinet Oedolion a Iechyd yr uchod, gan ychwanegu mai cynllun peilot ydoedd ond hyderir y bydd cydweithio rhwng y Bwrdd Iechyd a'r

Gwasanaeth Cymdeithasol yn greiddiol a chytunwyd bod angen ehangu'r cynllun i leoliadau ac ardaloedd eraill.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, amlygwyd y pwyntiau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Bod y cynllun yn gyffelyb i'r hyn a weithredir yn Awel y Coleg, Y Bala, sy'n annog unigolion i fyw yn annibynnol gyda chymdeithas glos yn eu galluogi a cheir sawl engraifft o unigolion yn byw yn fwy annibynnol nag yr oeddynt yn eu cartrefi eu hunain. Gofynnwyd faint o sylw sydd yn cael ei roi i ofalwyr teulu?

Mewn ymateb, esboniwyd bod rhwydwaith teuluol yn bwysig ac yn rhan o'r trefniadau canolog.

(ii) Gofynnwyd pam bod y broses wedi cymryd cyhyd i'w weithredu?

Mewn ymateb, esboniwyd bod y cynllun yn weithredol ers oddeutu 10 mis ac yn parhau i arbrofi ac i ddysgu gwersi. Roedd yn anodd cyflymu ac ehangu yn rhy gyflym gan ei fod yn newid sylweddol i bawb. Cydnabuwyd ei fod yn broses araf ond gobeithir codi'r momentwm er ehangu'r cynllun dros y misoedd nesaf. Nodwyd y bydd rhaid yn gyntaf trwytho staff yn y meddylfryd newydd.

(iii) Mewn ymateb i sylw wnaed ynglŷn â gweithredu cyllideb ar y cyd (pooled budget), ei bod yn bwysig gweithredu'r cynllun drwy un gyllideb.

(iv) Atgoffwyd yr Aelodau bod gwahoddiad wedi ei estyn iddynt i ymweld ag Ysbyty Alltwen ar 21 Ionawr 2016 ac annogwyd hwy i fynychu.

**Penderfynwyd: Derbyn, nodi a diolch am yr adroddiad a'r cyflwyniad ar weithrediad y gwasanaeth galluogi.**

Dechreuodd y sesiwn bore am 10.15 a.m. a daeth i ben am 12.45 p.m.

**8. ADRODDIAD CYNNYDD - PROSIECT ANSAWDD ADDYSG**

(a) Cyflwynwyd cynllun gweithredu gan yr Aelod Cabinet Addysg yn nodi cynnydd o'r hyn sydd wedi ei gyflawni yn deillio o argymhellion yr Ymchwiliad Craffu Ansawdd Addysg yn y meysydd canlynol:

- Arweinyddiaeth o fewn ysgolion
- Mathemateg
- Deall perfformiad a data
- Codi a chyfleu disgwyliadau
- Pegynnu o ran ansawdd
- Rôl yr awdurdod
- Rôl Llywodraethwyr
- Cyswllt gyda disgyblion

(b) Ymatebodd y Pennaeth Addysg a'r Swyddog Gwella Ansawdd Addysg i sylwadau gan Aelodau unigol, fel a ganlyn:

(i) Bod "Cynllun Y Moelwyn" yn gynllun peilot arloesol lle gwahoddir Penaethiaid y dalgylch i gwrdd yn rheolaidd i rannu arbenigedd ar draws y cynradd a'r uwchradd. Nodwyd bod y cynllun yn llwyddiannus ac yn esgor cydweithio bwriadus gyda phob Ysgol yn y dalgylch yn manteisio ar rannu arbenigedd o safbwynt arweinyddiaeth a'r cwricwlwm. O safbwynt ehangu'r cynllun i ysgolion eraill y Sir, nodwyd bod y cynllun wedi gweithio'n hynod o dda yn nalgylch y Moelwyn a'r her ydoedd cynnig model ar gyfer pob ardal yn enwedig o ystyried lleihad yn y cyllidebau a rhaid fyddai ystyried gwahanol ffyrdd o weithio.

(ii) Bod cynnydd yng nghyraeddiadau dysgwyr bregus eleni o'i gymharu a llynedd ond pwysleiswyd ei fod yn anodd i'w fesur gan bod y disgyblion yn wahanol o un flwyddyn i'r llall. Atgoffwyd yr Aelodau bod y Llywodraeth yn ariannu ysgolion ar gyfer disgyblion sydd a hawl i brydau ysgol am ddim a rhaid sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd i wneud eu gorau yn yr ysgolion.

(iii) Pryder o safbwynt Mathemateg – nodwyd bod hysbyseb rhanbarthol am Ymgynghorydd Her Mathemateg wedi ei ryddhau gan GwE gyda'r dyddiad cau wedi dod i ben diwedd wythnos diwethaf a chydnabuwyd bod angen yr arweiniad penodol i Benaethiaid Adran.

(iv) O safbwynt athrawon yn gorfod bod yn fwy hyblyg i ddysgu gwahanol bynciau, gofynnwyd a oedd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Colegau i'w paratoi am y maes gwaith. Esboniwyd o safbwynt yr uwchradd bod unigolion rhan amlaf yn dewis pwnc arbenigol gyda'r cynradd yn dysgu ystod o bynciau. Nodwyd ei fod yn ofynnol i'r Gwasanaeth Addysg ystyried ffurf amgen megis unigolion i ddysgu'n drawsbynciol i fyny at 14 oed ac i'r unigolion sydd gyda arbenigedd pwnc ddysgu yr oedran uwch a bod hyn yn her o safbwynt nifer disgyblion a lleihad yn y gyllideb. Ymddengys bod ESTYN wedi bod yn feirniadol yn ddiweddar o'r hyn a welwyd yn y Canolbarth a'r Gogledd mewn paratoi darpar athrawon i'r byd gwaith. Efallai bod angen cael trafodaeth ar yr hyn sy'n cael ei gynnig gan y Colegau ac a yw yn gymwys ar gyfer anghenion y farchnad.

(v) Pa drefniadau a wneir gan y Gwasanaeth yn draws-adrannaol i sicrhau bod disgyblion sydd yn gymwys i brydau Ysgol am ddim yn ei gael? Sicrhawyd bod ysgolion yn targedu'r disgyblion er mwyn i deuluoedd gael yr hyn sy'n ddyladwy iddynt ac yn ogystal ei fod yn ddangosydd ar gyfer cyllido ysgolion ac yn fesurydd mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill. Eglurwyd ymhellach bod Gwynedd yn colli allan ar swm sylweddol o arian o'i gymharu a'r ysgolion yn Ne Cymru sydd yn rhan o raglen Her Cymru y Llywodraeth lle maent yn buddsoddi i gadw safonau addysg. Sicrhaodd y Pennaeth Addysg y byddai'n dilyn i fyny ar drefniadau traws-adrannol i dargedu disgyblion sy'n haeddiannol o brydau Ysgol am ddim.

(vi) A yw yn parhau'n anodd i benodi Llywodraethwyr ac ymha ardaloedd? Cydnabuwyd ei fod yn amrywio o ardal i ardal a bod y cyrsiau mandadol a gyfeirir ato yn y cynllun gweithredu yn rhai ar gyfer llywodraethwyr newydd, Cadeiryddion a Chlercod. Nodwyd ymhellach bod rhaglen newydd yn ei le sy'n cynnig hyfforddiant ddiwedd prynhawn, fin nos, er mwyn hwyluso y llywodraethwyr hynny sy'n gweithio i fynychu ynghyd a'u cynnal yn rhanbarthol. O safbwynt cwblhau'r hyfforddiant ar y we, teimlwyd bod hyfforddiant wyneb yn wyneb yn fwy manteisiol ond wrth

gwrs bod modd cwblhau rhai modiwlau ar y we.

(vii) Bod problem o recriwtio llywodraethwyr yn broblem mewn sawl awdurdod yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

**Penderfynwyd: Derbyn, a nodi cynnwys y cynllun gweithredu gan nodi y byddai'r Pwyllgor Craffu yn herio dilyniant a chanlyniad y gwaith hwn wrth edrych ar Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Addysg sydd i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu hwn ym mis Mawrth 2016.**

**9. NEWIDIADAU YN Y GWASANAETH ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL A CHYNHWYSIAD**

(a) Cyflwynwyd adroddiad yr Aelod Cabinet Addysg yn amlinellu'r strategaeth ddrafft ar gyfer newidiadau yn y gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol

(b) Adroddwyd ar lythyr a dderbyniwyd gan Gyngor Ynys Mon yn mynegi siomedigaeth ac anfodlonrwydd na fu ymgynghori a thrafodaeth digonol gyda swyddogion Môn eto ac nad oeddynt wedi eu hargyhoeddi o'r angen i ddad-gomisynu strwythur y Cyd-bwyllgor Anghenion Dysgu Ychwanegol er mwyn cyflawni'r deilliannau arfaethedig o fewn y strategaeth ADY ddiwygiedig.

(c) Mewn ymateb, pwysleisiodd y Pennaeth Addysg nad oedd bwriad i beidio cydweithio ag Ynys Môn a bod bwriad i ymgynghori'n llawn gyda Chyngor Mon unwaith y byddai barn ffurfiol y Cyngor wedi ei graffu a'r Cabinet wedi dod i gasgliad arno. Esboniwyd bod y prosiect wedi canolbwyntio yn y lle cyntaf ar anghenion trigolion Gwynedd. Eglurodd yr Uwch Reolwr Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad bod trafodaethau wedi eu cynnal gyda oddeutu 400 o randdeiliad yn ystod mis Medi / Hydref. Cydnabuwyd nad oedd y gwendidau gyda'r trefniadau presennol a ddaeth i'r amlwg yn sioc i'r swyddogion megis:

- Anghysondebau yn y gweithdrefnau
- Cyfundrefn draddodiadol a chymhleth
- Ansawdd perfformiad
- Perthynas gyda gwasanaethau eraill
- Twf mewn anghenion penodol
- Diffyg cyfathrebu

(c) Tynnwyd sylw at nod glir y strategaeth sef "sicrhau bod plant a phobl ifanc (rhwng 0-25 oed) sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar gyfleoedd ac yn ennill profiadau sydd wedi eu cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer, er mwyn eu galluogi i wneud cynnydd yn unol a'u gallu".

(ch) Tywyswyd yr Aelodau drwy'r cynllun gweithredu a fyddai'n cyflawni'r deilliannau isod:

- Cyflwyno defnydd o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolion
- Datblygu'r defnydd o feini prawf er mwyn cyflwyno canllawiau ac eglurder o ran y ddarpariaeth briodol ar gyfer pob anhwylder

- Sefydlu Fforymau Ardal ADY a Phanel Sirol ADY
- Sefydlu Tim Integredig ADY newydd
- Sefydlu trefniadau newydd ar gyfer y ddarpariaeth cynhwysiad / cynnal ymddygiad
- Adolygu darpariaeth canolfannau arbenigol
- Yr ysgolion arbennig
- Rhaglen hyfforddiant
- Datblygu siarter / cytundeb rhwng ysgolion a'r awdurdod lleol
- Sefydlu uned ddata oddi fewn i'r Adran Addysg
- Mesur bodlonrwydd plant a phobl ifanc sydd efo anghenion dysgu ychwanegol a'u teuluoedd
- Fforymau cynllunio ADY ysgolion
- Darpariaeth yn y blynyddoedd cynnar
- Darpariaeth ol-16
- Cyfleoedd i gydweithio efo'r Tim Plant ac asiantaethau eraill
- Cyd-weithio efo iechyd
- Yr Achos busnes a fyddai'n dangos arbediad o £808,466 drwy gyfuno gweithlu canolog. Byddai'r arbediad yn seiliedig ar y model darpariaeth newydd ond hefyd yn newid patrwm gweithio y gweithlu ac yn cynnig cyfleoedd parhaol ond i nifer lai o unigolion.

(d) Rhoddwyd cyfle i'r Aelodau graffu'r strategaeth ddrafft gerbron ac fe amlygwyd y sylwadau canlynol gan Aelodau unigol:

(i) Gofynnwyd a fyddai cyrhaeddiadau disgyblion anghenion dysgu ychwanegol yn cyfrannu at dargedau perfformiad ysgolion uwchradd neu a fyddir yn cyflwyno dangosyddion gwahanol.

Mewn ymateb, esboniwyd y dylai pob disgybl fod yn rhan o gymdeithas allweddol ysgolion a bod tasglu cenedlaethol yn ystyried ffordd amgen o fesur cyrhaeddiadau disgyblion gyda ymddygiad bregus – sef y plant fydd efallai yn gwneud mwy o gynnydd ond y targedau ddim yn cael eu cydnabod. Nodwyd ymhellach bod y sustem yn seiliedig ar gyrhaeddiadau yn hytrach na chyflawniadau.

(ii) Bod yr ystod o ddefnyddwyr yn eang o 0 i 25 oed ac yn aml gwelir llawer iawn o blant sydd yn methu yn syrthio i ddrygioni ac yn hyn o beth gofynnwyd faint o gydweithio a wneir gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn gan ei fod yn holl bwysig bod ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth hwn ar gyfer rhoi cymorth i'r unigolion.

Mewn ymateb, eglurwyd nad oedd yn glir o fewn y ddeddf newydd ynglyn a chyllido'r garfan o bobl ifanc rhwng 19 – 25 oed, ac y byddai trafodaeth ar hyn yn dipyn o her.

Sicrhawyd bod trafodaethau cychwynnol wedi digwydd gyda'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ynglyn a'r dull o ganolbwyntio ar y person yn ganolog sy'n

golygu mai un cynllun fyddai ar gael i'r unigolyn ac yn hyn o beth yn wasanaeth mwy effeithiol.

(iii) Pryder bod y gyfundrefn yn cymryd lle y gyfundrefn 3* ac yn cael gwared o ddatganiadau a bod gofynion cyfreithiol statudol hefo datganiad ac yn hyn o beth yn rhoi sicrwydd i unigolion a'u teuluoedd. Tra'n derbyn bod y gyfundrefn ar gael teimlwyd nad oedd y sicrwydd yna a bod y gyfundrefn bresennol yn atebol i'r gyfraith.

Mewn ymateb, eglurwyd bod newid deddfwriaeth yn genedlaethol gyda datganiadau wedi eu diddymu gyda Llywodraeth Cymru yn ceisio cyflwyno yr un drefn ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol gydag ymgais i wneud y sustem yn hawdd i'w deall. Tra'n derbyn yr angen i fod yn glirach o safbwynt cyfrifoldebau ysgolion a'r awdurdod ceisir cyflwyno strwythur i ymateb i hyn. Y sialens ydoedd creu Tim canolog aml-asiantaethol a fyddai'n rhoi hyder i deuluoedd. O safbwynt y model newydd, sicrhawyd na fyddir yn tynnu cymorth oddi ar blant sydd eisoes ar ddatganiadau.

Ychwanegwyd y byddai'n ofynnol bod yn glir o safbwynt meini prawf lleol drwy edrych ar gynlluniau unigol, geiriad y cynllun, a.yb.

(iv) Pryder ynglŷn â faint o sicrwydd y byddai ysgolion yn talu am y gefnogaeth ychwanegol o'u cyllidebau o ystyried yr hinsawdd o doriadau sydd ohoni, ac y byddent yn penderfynu cynnal y gefnogaeth eu hunain.

Mewn ymateb i'r uchod, eglurwyd o ran y model, nad oedd yr arian wedi ei ddatganoli i'r ysgolion gyda'r bwriad o sefydlu y gwasanaeth yn ganolog. Y bwriad fyddai datganoli cymorthyddion i'r ysgolion mwyaf ac ar lefel dalgylch i'r ysgolion ychydig yn llai.

(v) Tra'n derbyn y bydd plant mwyaf dwys yn y sector cynradd yn cael eu hadnabod yn unol â'r gyfundrefn flaenorol, mynegwyd pryder ynglyn â phlant gydag anghenion llai amlwg megis y disgyblion sy'n cael cymorth gan y gweinyddesau llythrennedd. Gofynnwyd sut y byddir yn monitro y plant yma ac yn adnabod eu hanghenion.

Mewn ymateb, cadarnhawyd y byddai'r sustem newydd yn adnabod anghenion plant yn gynharach mewn sgiliau rhifedd a llythrennedd a sicrhawyd y byddai modd parhau gyda'r arbenigedd.

O safbwynt monitro, efallai bod rôl i Gydlynwyr ar lefel dalgylch ar gyfer yr oedran 0 i 25 oed ac a fyddai yn bwynt cyswllt rheolaidd i ysgolion gyda rôl benodol o fonitro cynnydd neu diffyg cynnydd.

(vi) Cyfeiriwyd a phryderwyd am y risgiau gyda'r gweithlu a gofynnwyd pa mor hyderus oedd y tim prosiect o sicrhau perchnogaeth y gweithlu dros y newidiadau arfaethedig.

Mewn ymateb, cydnabuwyd bod risg ond rhan o'r gwaith ydoedd ceisio cael gwell adnabyddiaeth o'r gweithlu o ran gwella'r gyfundrefn. O'r drafodaeth gynhaliwyd gyda'r gweithlu, roedd y farn wedi ei rannu gyda hanner yn cydnabod bod angen gwella'r ddarpariaeth a'r hanner arall yn mynegi nad oedd angen newid. Tra'n cydnabod y byddai angen llai o weithlu cadarnhawyd y byddai'r contractau yn rhai parhaol ac yn cynnig llwybr gyrfa gwell i unigolion.

(vii) Pwysigrwydd bod yr awdurdod yn cyfathrebu gyda'r ysgolion a'r rhanddeiliad.

**Penderfynwyd: (i) Cyfleu i'r Cabinet gymeradwyaeth y Pwyllgor Craffu i'r strategaeth ddrafft yn ddarostyngedig i geisio cyfarch y materion a ganlyn:-**

- **Cynnig yr un lefel o sicrwydd i ddisgyblion a rhieni ag sydd ar gael o dan y gyfundrefn bresennol**
- **Yr angen i gyfarch anghenion llai dwys a gwneud hynny'n fuan**
- **Y perygl y byddai ysgolion yn methu ymdopi'n ddigonol gyda phwysau ychwanegol yn sgil pwyslais y strategaeth ar yr ysgolion yn gwneud mwy**
- **Y risg y byddai cyraeddiadau cymharol is rhai disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn arwain at amharodrwydd gan ysgolion i'w cynnwys**
- **Pryderon cyllidol yn sgil cost tebygol ymestyn y ddarpariaeth hyd at 25 oed.**

**(ii) Gofyn i'r Tim Prosiect sicrhau cynnal trafodaeth llawn a buan gyda Chyngor Sir Ynys Môn unwaith fydd y strategaeth wedi ei mabwysiadu.**

Dechreuodd y sesiwn prynhawn am 1.15 p.m. a daeth i ben am 3.30 p.m.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethau |
| **DYDDIAD** | 28 Ionawr 2016 |
| **TEITL** | Strategaeth Lletya Pobl Hŷn |
| **PWRPAS** | Craffu'r Strategaeth ddrafft |
| **AWDUR** | Arwel Wyn Owen<br>Uwch Reolwr Tai<br>Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant |

**1. Cyd-destun**

Mae llunio Strategaeth Letya Pobl Hyn (atodiad 1) yn nod o fewn y Cynllun Strategol presennol a ffrwyth gwaith cydweithio gydag Adran Tai a Thîm Comisiynu o fewn Adran Oedolion, Llesiant ac Iechyd. Mae'r prosiect yn atebol i Fwrdd Lletya ac fel Bwrdd roeddynt yn awyddus i rannu rhai o brif negeseuon / flaenoriaethau er mwyn cael cytundeb ar y ffordd ymlaen .

Prif flaenoriaethau'r Strategaeth yw:

- Cefnogi unigolion i aros yn eu cartrefi cyn hired â phosib
- Canfod ardaloedd daearyddol penodol ble mae'n debygol y bydd galw uchel
- Sicrhau lletya addas i bobl hyn
- Sicrhau bod pobl hyn Gwynedd yn ymwybodol o'r opsiynau llety sy'n bodoli o fewn y Sir a bod gwybodaeth hygyrch ar gael

Mae trafodaeth wedi cymryd lle gydag Aelodau Cabinet yn ystod mis Mawrth i drafod prif negeseuon a blaenoriaethau'r Strategaeth a theimlwyd bod angen gwaith pellach ar yr ardaloedd sydd wedi eu hadnabod gyda'r dwyster uchaf o bobl hyn ac i argymhellion gael eu rhoi ymlaen er hwyluso trafodaeth maes o law.

**2. Pwrpas yr adroddiad**

Bwriad y papur hwn yw cyflwyno


- yn fras, rhai o brif negeseuon a materion fydd yn ysgogi trafodaeth
- rhoi trosolwg o ffactorau sydd wedi eu hadnabod fel y prif ardaloedd gyda'r dwyster uchaf o bobl hyn ac argymhellion ar y ffordd ymlaen
- derbyn unrhyw sylwadau cyn eu bod y Strategaeth yn cael ei chyflwyno yn derfynol i'r Cabinet yn mis Mawrth

**3. Prif negeseuon i'w hystyried**

Gellir cyffredinoli rhai pwyntiau megis;

- ➢ disgwylir prif dwf mewn poblogaeth ymysg grŵp oedran 85
- ➢ bydd canran uchel o yn bobl hyn yn byw ar ben eu hunain

- mae'r ardaloedd yn tueddu i fod yn rhai arfordirol gyda nifer yn dewis ymddeol o fewn yr ardaloedd hyn heb gysylltiadau rhwydwaith cefnogaeth
- bydd cyfraddau dementia yn cynyddu ynghyd ag iselder a chyflwr pryder
- mae'r tabl isod yn nodi daliadaeth pobl hyn yn y Sir




- Mae  55% o ddefnyddwyr gwasanaeth yn cael gofal preswyl neu ofal nyrsio o fewn 5 milltir i'w cartref. Mae 88% wedi  teithio llai na 15 milltir i ofal preswyl neu ofal nyrsio

**4. Adnabod ardaloedd gyda'r dwyster uchaf**

Er mwyn adnabod yr ardaloedd sydd gyda'r dwyster uchaf o bobl hyn mae nifer o ffynonellau data wedi cyfrannu at greu darlun cynhwysfawr o'r angen sydd yn bodoli yn yr ardaloedd hyn a'r tebygolrwydd o dueddiadau i'r dyfodol

Mae'r Papur Canfyddiadau yn nodi'r ardaloedd isod fel y rhai ag dwyster uchaf o bobl hyn:

1 Tywyn 1
2 Porthmadog Gorllewin
3 Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog
4 Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel
5 Llanbedrog ac Abersoch
6 Llanbedr
7 Dyffryn Ardudwy
8 Menai, Caernarfon

Mae Atodiad 1 yn rhoi cynnig argymhellion bras o ran camau nesaf o ran gwaith pellach yn yr ardaloedd hyn:

- **Tywyn 1**- edrych i gynyddu darpariaeth tai gwarchod neu i gael darpariaeth tai gofal ychwanegol yn yr ardal
- **Porthmadog Gorllewin**- bydd darpariaeth tai gofal ychwanegol ar gael o 2017 ymlaen. Yn draddodiadol mae dibyniaeth wedi bod cartrefi preswyl a nyrsio sydd o fewn yr ardal
- **Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog-** edrych i hyrwyddo gwasanaethau ataliol a chefnogaeth yn yr ardal
- **Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel-** edrych i hyrwyddo gwasanaethau ataliol a chefnogaeth yn yr ardal
- **Llanbedrog ac Abersoch -**a fyddai Tai Gofal Ychwanegol yn opsiwn gan glystyru plwyfi Aberdaron, Botwnnog a Thudweiliog fel un ardal?
- **Llanbedr** -ardal wledig sydd i weld yn cynnal ei hun
- **Dyffryn Ardudwy** -gwaith ailfodelu tai gwarchod gan CCG yn cymryd lle- cyfle i hyrwyddo model tai gwarchod
- **Menai, Caernarfon**- mae'n ardal sydd i weld yn gallu cynnal ei hun ac nid yw'n flaenoriaeth i'w dargedu

### 5 Rhai materion i'w trafod ymhellach:

Mae'r Strategaeth yn gosod cyfeiriad ar gyfer darpariaeth lletya pobl hyn yn y Sir a bydd yr adroddiad data yn ffurfio sylfaen ar gyfer creu datganiad sefyllfa fel bod cyflenwyr a phartneriaid yn gwybod yn glir beth yw ein hanghenion lletya i'r dyfodol.

Mae oblygiadau i'r hyn sydd yn cael ei osod fel cyfeiriad yn y Strategaeth sef; cynyddu cyflenwad o dai gofal ychwanegol, lleihau dibyniaeth ar ofal preswyl a chynyddu dewis i bobl allu cynnal eu hannibyniaeth o fewn eu cymunedau.

Mae'r Strategaeth hefyd yn gosod cynsail ar gyfer targedu ardaloedd penodol er mwyn adnabod datrysiadau fydd yn osgoi costau uwch i'r Cyngor o ran darpariaeth gofal yn y dyfodol. Mae oblygiadau ariannol yn ogystal i ddarparu Tai Gofal Ychwanegol pe byddai hyn yn cael ei adnabod fel opsiwn ar gyfer ardal benodol.

Mae'n wybyddus bod diffyg darpariaeth gofal preswyl a nyrsio yn y Sir ac mae llawer o ddarparwyr preifat yn cael trafferthion recriwtio mewn rhai ardaloedd a all yn ei dro osod pwysau ychwanegol ar wasanaethau mewnol Cyngor.

Gwelir cyfle yma i wneud y cyswllt gyda darpariaeth o dai addas, natur a math o wasanaethau o ran gofal a sut all y Cyngor ddylanwadu / siapio gofynion galw yn y dyfodol.

### 6 Camau nesaf

- I dderyn adborth ar gyfeiriad y Strategaeth gan y Pwyllgor Craffu
- Bod trafodaethau yn cymryd lle gyda'n prif bartneriaid megis tai ac iechyd i lunio cynllun gwaith cynhwysfawr yn fuan yn mis Chwefror
- Bod y Strategaeth yn cael eu mabwysiadu yn ffurfiol erbyn Mawrth 2016

**Strategaeth Lletya Pobl Hŷn**

DRAFFT

**Tudalen Gynnwys**


| | |
|---|---|
| **Gweledigaeth** | **3** |
| **Cyd-destun cenedlaethol a lleol** | **4** |
| **Tueddiadau poblogaeth** | **8** |
| **Darpariaeth bresennol** | **10** |
| **Ymgysylltu a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid** | **13** |
| **Adnabod ardaloedd penodol** | **15** |
| **Prif negeseuon** | **16** |
| **Cynllun gweithredu** | **18** |


DRAFFT

**Gweledigaeth**

Mae dyheadau pobl hŷn Gwynedd yn glir. Mae pobl hŷn Gwynedd eisiau byw gartref cyn hired â phosib gan gydnabod angen am gefnogaeth pan yn briodol i sicrhau hyn. I gefnogi'r dyheadau hyn, mae gweledigaeth y Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn rhoi pwyslais ar hybu a chynnal annibyniaeth cyn belled â phosib i ganiatáu unigolion aros yn eu cartrefi. Pe byddai sefyllfa yn codi lle na fydd bellach yn opsiwn i rywun aros yn eu cartref eu hunain, bydd opsiynau eraill megis Tai Gwarchod a/neu Dai Gofal Ychwanegol yn cael eu hyrwyddo i unigolion. I'r dyfodol ystyrir gofal preswyl yn bennaf fel:

- Cyfle pellach i adennill annibyniaeth
- Cyfle ysbaid i ofalwyr fel y gallant barhau â'u rôl gofalu
- Opsiwn gofal parhaol i bobl â dementia na ellid gofalu amdanynt gartref na mewn tai gofal ychwanegol

Gweledigaeth y Cyngor felly ar wasanaethau preswyl i bobl hŷn yw:

- Lleihau nifer y gwelyau preswyl traddodiadol
- ↑ nifer y gwelyau mewn Tai Gofal Ychwanegol
- ↑ nifer y gwelyau nyrsio mewn rhai ardaloedd
- ↑ nifer y gwelyau i'r rheini â phroblemau cof, preswyl a nyrsio

Bwriad y Gwasanaethau Cymdeithasol i'r dyfodol felly yw comisiynu:

- Llai o welyau preswyl traddodiadol gan ddarparu fwy o wasanaethau i gefnogi unigolion i fyw gartref neu mewn llety addas i'w hamgylchiadau
- Cyfleoedd i bobl gael cyfnod adferiad estynedig
- Cyfleoedd hyblyg i gael gofal ysbaid
- Mwy o welyau gofal preswyl ar gyfer pobl â dementia

Fel pob cyngor yng Nghymru, mae Gwynedd yn wynebu toriadau sylweddol yn y cyllid y mae'n cael gan y llywodraeth tuag at dalu am wasanaethau lleol. Ar yr un pryd mae'r pwysau ar wasanaethau'r Cyngor yn sicr o gynyddu'n aruthrol. Oherwydd hyn, nid oes modd i bethau barhau fel y maent ac mae angen newidiadau sylweddol ar unwaith fel y gall y Cyngor barhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n bobl fwyaf bregus dros y degawdau nesaf.

Bydd y Strategaeth Lletya Pobl Hŷn yn amlinellu sut bydd Cyngor Gwynedd yn sicrhau dewis addas o lety ar gyfer pobl hŷn gyda gwahanol anghenion.



DRAFT

### Cyd-destun cenedlaethol a lleol

Pwrpas llunio Strategaeth Lletya Pobl Hŷn yw sicrhau bod Cyngor Gwynedd a phartneriaid allweddol yn gweithio gyda'i gilydd tuag at yr un weledigaeth a bod cyfeiriad clir wedi cael ei osod i'r holl bartneriaid yng nghyd-destun darparu lletya pobl hŷn yng Ngwynedd.

Mae cytuno ar Strategaeth Letya Pobl Hŷn wedi ei nodi yn **Gynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2013-2017** fel blaenoriaeth yn ystod 2013-2014. Mae'r strategaeth hon yn ogystal am gefnogi blaenoriaethau sydd wedi ei adnabod yn **Strategaeth Tai Cyngor Gwynedd 2013-2017**.

Fe nodir mewn nifer o ddogfennau polisi ac ymchwil wedi ei gyhoeddi bod cydberthynas rhwng cartrefi ag amgylchedd y mae unigolyn yn byw ynddo fel bod yn allweddol i safon bywyd yr unigolyn gan nodi'r angen i gartref fod yn addas i gael ei addasu fel y mae person yn mynd yn hŷn a'u hanghenion yn newid.

Mae dogfen **Cartrefi Gwell i bobl Cymru**[1] yn nodi bod nifer o bobl hŷn angen cartref sydd yn addasadwy a gyda mynediad da i gyfleusterau. Mae **Gwella Bywydau a Chymunedau- Cartrefi yng Nghymru**[2] yn cydnabod yr her fawr sydd o'n blaen yn y maes gyda phoblogaeth sy'n heneiddio yn cael ei nodi fel goblygiad sylweddol ar gynllunio tai a'r a'r cymorth sydd ar gael i bobl barhau i fyw yn eu cartrefi cyn hired â phosib. Maent yn nodi'r ffyrdd canlynol o ymdrin â hyn:

i. Darparu mwy o dai o'r math cywir a chynnig mwy o ddewis
ii. Gwella cartrefi a chymunedau, gan gynnwys effeithlonrwydd ynni cartrefi newydd a presennol
iii. Gwella gwasanaethau a chefnogaeth gysylltiedig â chartrefi.

I ategu i hyn noda'r **Sefydliad Gofal Cyhoeddus** bod pobl hŷn eisiau:

- Cartref sydd yn hawdd edrych ar ei ôl
- Bod yn ddiogel
- Mynediad at gyfleusterau a chludiant
- Cymdogaeth dda

---

[1] Strategaeth a gyhoeddwyd gan Llywodraeth Cymru 2001

[2] Strategaeth dai genedlaethol a gyhoeddwyd yn 2010



DRAFT

• Llety sy'n ddeniadol ac yn addas i'r pwrpas
• Aros yn eu cartrefi heb orfod mynd i ofal preswyl

Mae'r **Joseph Rowntree Foundation** hefyd yn hyrwyddo'r un cysyniad drwy gyhoeddi 16 o safonau sydd yn anelu i ddarparu cartrefi sydd yn hyblyg ac yn addas i bobl ac amrediad o anableddau.

Yn ogystal â'r Strategaeth hon, mae dogfennau eraill yn cael eu llunio sydd wedi bwydo i'r ddogfen hon, gyda'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn y broses o adolygu eu **Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn** ac mae data o'r **Datganiad Sefyllfa Marchnad** wedi cyfrannu tuag at y ddogfen hon o ran adnabod darpariaeth bresennol preswyl a nyrsio yng Ngwynedd, tueddiadau i'r dyfodol a llunio blaenoriaethau.

Er mwyn llunio'r ddogfen hon, fe ganolbwyntiwyd y gwaith ymchwil ar yr elfennau canlynol:

- Adnabod tueddiadau er mwyn cael darlun clir
- Cael mewnbwn trigolion Gwynedd er mwyn cael strategaeth ymatebol
- Gallu adnabod ardaloedd sydd angen darpariaeth o'r newydd neu addasu darpariaeth i'r dyfodol

Mae polisi cenedlaethol sy'n ymwneud a Gofal Cymdeithasol a Thai ar gyfer Pobl Hŷn yn canolbwyntio at dri ffactor allweddol - annibyniaeth, dewis a chyflenwad o dai addas a digonol. Mae Strategaeth Pobl Hŷn Cymru (2013-2023) yn hyrwyddo dewis a byw'n annibynnol ac yn nodi "there is a growing recognition of the values of developing service models that have the citizen at their core, and that seek to protest protectand support all opportunities for independent living".

Un o ganlyniadau mae'r Strategaeth Pobl Hŷn Cymru yn anelu i wireddu erbyn 2023 yw sicrhau bod gan bobl hŷn mynediad at dâi dai a gwasanaethai sy'n cefnogi eu hanghenion a hyrwyddo annibyniaeth; bod cyflenwad addas o opsiynau llety at gyfer pobl hŷn; bod cefnogaeth ddigonol i symud; ac yn olaf bod modelau llety amgen (sy'n cynnwys "retirement communities"; tai gwarchod a thai gofal ychwanegol) yn

DRAFT

cael ei gynnig i sicrhau dewis i bobl hŷn yn y math o lety sydd ar gael i gwrdd â'u hanghenion a'u dyheadau.

Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn glir. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu "fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol ac iechyd i ymgysylltu efo a grymuso dinasyddion i gefnogi nhw gyflawni annibyniaeth a llesiant, ac yn lle mae'n briodol, cael y gefnogaeth maen nhw angen". Gweledigaeth y Ddeddf yw uchafu annibynniaeth pobl, cysylltu pobl efo'r cymunedau a lleihau neu oedi dibyniaeth bobl ac ymyrraeth gan ofal cymdeithasol ac iechyd.

Mae pwysig i beidio underestimate anwydyddu pwysigrwydd cyflenwi tai addas ar gyfer poblogaeth sy'n heneiddio. Mae adolygiad o lenyddiaeth ddiweddar gan Brifysgol Bangor yn adnabod:

a) Mae stoc tai Cymru o fewn y gwaethaf yng Ngogledd Ewrop - caiff hyn effaith sylweddol ar iechyd a llesiant pobl hŷn;

b) Mae mynediad tuag at addasiadau ac atgyweiriadau yn hanfodol tuag at sicrhau bod pobl hŷn yn gallu parhau i fyw yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain;

c) Mae'n hanfodol i gyfarch cyflenwad ac addasrwydd mathau arbennig o dai sy'n cwrdd ag anghenion pobl hŷn;

d) Mae 80% o'r tir yng Nghymru yn cynnwys 'tai gwledig', sy'n golygu eu bod angen datrysiadau a dulliau gwahanol.

Mae effaith cyflwr gwael tai yn effeithio yn fawr ar grwpiau bregus megis pobl hŷn. Mae gwresogi isel/aneffeithiol wedi ei brofi i leihau disgwyliadau oes. . Yn ychwanegol, mae addasu tai yn lleihau anabledd a'r risg o ddamweiniau.

I grynhoi, mae sicrhau cyflenwad addas a digonol o dai ar gyfer pobl hŷn yn hanfodol er mwyn cynorthwyo i leihau dibyniaeth ar wasanaethau statudol megis gofal preswyl a mynediad i ysbytai. Ar hyn o bryd yng Ngwynedd, mae pobl yn dod yn ddefnyddwyr gwasanaeth yn rhy fuan gyda gorddibyniaeth ar fodelau gofal a llety traddodiadol, megis gofal preswyl. Nid ydym yn gwerthfawrogi capasiti a gallu pobl i

fyw bywydau annibynnol, ac i barhau i fyw gartref ac o fewn eu cymunedau cyn hired â phosib.

Un o'r prif heriau mae'r Gwasanaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant yn ei wynebu yw poblogaeth sy'n heneiddio a'r goblygiadau ar gyfer dyluniad tai a'r gefnogaeth sydd ar gael ar gyfer cefnogi pobl i fyw yn annibynnol cyn hired â phosib. Yn ôl amcangyfrifon canol flwyddyn 2013, mae pobl 65 oed a throsodd yn cyfri fel 22% o boblogaeth Gwynedd. Mae mwy o bobl dros 65 oed o'i gymharu â phobl ifanc 'dan 16 oed yn byw yng Ngwynedd. Yn seiliedig ar ragamcanion poblogaeth, rhwng 2015 a 2030, bydd twf sylweddol o fewn poblogaeth 85 oed a throsodd yng Ngwynedd. Rhagamcan y bydd y grŵp hwn yn cynyddu bron i 60% erbyn 2030.

Blaenoriaeth allweddol arall yw lleihau'r galw ar fodelau gofal mwy traddodiadol, er enghraifft Gofal Preswyl a datblygu modelau gofal newydd megis Tai Gofal Ychwanegol.

Fel rhan o Gynllun Strategol 3 Blynedd Cyngor Gwynedd, mae datblygu Strategaeth Letya ar gyfer Pobl Hŷn wedi ei osod fel un cynllun 'dan raglen lletya Gwasanaethau i Oedolion. Bydd y strategaeth yn eistedd 'dan Strategaeth Partneriaeth Tai Gwynedd a byddai'n bwydo fewn i'r Cynllun Datblygu Lleol yn 2016, a'r Cynllun Unedol (2013-2017), ynghyd â'r Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn 2011-2016.

DRAFT

## Tueddiadau Poblogaeth

Yn seiliedig ar amcangyfrifon[3], mae 121,911 o bobl yn byw yng Ngwynedd. Am y tro cyntaf, mae mwy o bobl dros 65 oed a throsodd o'i gymharu â phobl ifanc 'dan 16 oed yn byw yng Ngwynedd. Mae 14277 o bobl oed 65-74, 8688 o bobl 75 i 84 a 3707 o bobl dros 85.

Ar sail amcangyfrifon presennol[4], rhwng 2015 a 2030, mae'r prif dwf mewn poblogaeth ymysg y grŵp oedran 85 oed a hŷn. Disgwylir i'r grŵp oedran yma yng Ngwynedd gynyddu 59% erbyn 2030, gyda'r grŵp oedran 75-84 oed yn cynyddu 27%. Ond, disgwylir i'r grŵp 65-74 oed leihau yn raddol erbyn 2030.

Wrth i ni edrych ar boblogaeth o fewn Gwynedd, yr un ardaloedd oedd yn gyson ar ben y rhestr o ran dwysedd poblogaeth bobl hŷn uchaf a/ neu'r niferoedd bobl hŷn uchaf, a hynny yn y grwpiau oedran 75-84 a 85+. Wrth edrych ar gyfansoddiad cartref yn yr ardaloedd hyn, roedd nifer yn dod i'r brig yn y tabl o ran cartrefi un person neu deuluoedd dros 65 mewn oedran.

Un o'r pethau i nodi yw bod yr ardaloedd hyn yn gyffredinol mewn ardaloedd arfordirol poblogaidd, ac mae awgrym bod nifer yn dewis dychwelyd i'r ardaloedd hyn i ymddeol. Mae angen rhoi ystyriaeth i hyn wrth ystyried opsiynau llety a chynllunio gwasanaethau yng Ngwynedd gan fod rhagdybiaeth bod y bobl hyn yn byw yn bell o unrhyw rwydwaith gefnogaeth.

## Dadansoddiad o ragamcaniadau niferoedd dementia Gwynedd

Mae pobl hŷn yn tueddu i ddioddef yn fwy gyda phroblemau iechyd meddwl. Gall hyn, yn ei dro, effeithio annibyniaeth a safon bywyd unigolion a'u teuluoedd. Y ddau brif gyflwr iechyd meddwl sy'n effeithio pobl hŷn yw dementia ac anhwylderau gweithredol megis iselder a chyflwr pryder.

[3] Amcangyfrifon canol blwyddyn 2013 Stats Wales

[4] Amcangyfrifon Daffodil www.daffodilcymru.org.uk



DRAFT

Mae data a gesglir yn rhagfynegi y bydd niferoedd y bobl hŷn 65+ sydd â dementia yng Ngwynedd yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf o 1,863 yn 2013 i 2,115 yn 2020 ac yna 2,664 erbyn 2030[5].

**Mudo mewnol**

Nifer bach o'i gymharu â'r boblogaeth o fudo mewnol sy'n digwydd i mewn i Wynedd. Mae cynnydd bach wedi bod yn ystod y ddegawd ddiwethaf gan gynyddu o 110 o bobl yn mudo i mewn i Wynedd yn 2001-2002 i 130 o bobl yn 2012-2013[6].

DRAFFT

[5] Amcangyfrifon Daffodil www.daffodilcymru.org.uk

[6] StatsWales

## Darpariaeth bresennol

### Daliadaeth a chyflwr tai

Edrychwyd ar ddata cyfrifiad 2011 o ran daliadaeth o fewn Gwynedd ac mae 26.4% o aelwydydd Gwynedd a phawb 65 oed a drosodd gyda 21.6% o aelwydydd Arfon gyda phawb 65 oed a throsodd, 30.6% o aelwydydd Dwyfor a 26.4% o aelwydydd Meirionydd.

Yn ôl data[7] ynglŷn â daliadaeth cartrefi Gwynedd mae 76% o bobl 65 oed a throsodd Gwynedd yn berchennog/ preswylydd, 13% yn awdurdod lleol, 6% gan gymdeithasau tai a 5% yn rhentu'n breifat.

Mae ein data[8] yn dangos bod 1,659 o bobl 65 oed a throsodd yn byw mewn cartrefi heb wres canolog sydd yn gyfatebol i 6.82% o'r boblogaeth hŷn.

### Darpariaeth Tai Gwarchod a Thai Gofal Ychwanegol presennol yng Ngwynedd

- Mae cyfanswm o 24 cynllun Tai Gwarchod 689 o unedau unigol gan Bartneriaeth Tai Gwynedd.
- Mae 3 o Bartneriaid Tai Gwynedd yn berchen cynlluniau Tai Gwarchod yng Ngwynedd. Cartrefi Cymunedol Gwynedd yw'r darparwr mwyaf gyda 13 o gynlluniau, 10 gan Grŵp Cynefin ac yna 1 gan Gymdeithas Tai Gogledd Cymru.
- Yn nhermau lleoliad, Arfon yw'r ardal gyda'r mwyafrif o ddarpariaeth Tai Gwarchod gyda 10 cynllun a 194 (47%) o unedau ,Meirionnydd gyda 9 chynllun a 173 (42%) o unedau a Dwyfor gyda 5 cynllun a 46(11%) o unedau.
- Mae 2 gynllun Tai Gofal Ychwanegol yn weithredol yng Ngwynedd, gyda 30 uned yn Awel y Coleg yn y Bala a 42 uned yng Nghae Garnedd ym Mangor ac mi fydd cynllun 40 uned ym Mhorthmadog erbyn diwedd 2017.

Mae Tai Gwarchod yn cynnig diogelwch a thawelwch meddwl i lawer o'I tenantiaid ac aelodau teulu. Yn bennaf oherwydd gwasanaeth warden sydd ar gael yn ogystal ag rhai cynlluniau yn cynnig gweithgareddau cymdeithasol i'w preswylwyr. Mae Grant Cefnogi Pobl yn rhoi cefnogaeth ariannol hanfodol i'r cynlluniau hyn. Ar hyn o

[7] Swyddfa Ystadegau Gwladol

[8] Amcangyfrifon Daffodil www.daffodilcymru.org.uk

DRAFT

bryd, mae cyllideb Cefnogi Pobl sydd yn cael ei weinyddu i Awdurdodau Lleol yn wynebu toriadau sylweddol, cymaint ag 10% yn ystod 2014-15. Tra mae gwarchod gwasanaethau rheng flaen yn bwysig ni ellir rhoi sicrwydd na fydd cynlluniau tai gwarchod yn imiwn doriadau pellach yn y dyfodol. Mae'r Strategaeth hon cynnig cyfle unigryw I weithio gyda'n Partneriaid Tai I ddilyn trywydd model gwahanol yng Ngwynedd.

Mae datblygu Tai Gofal Ychwanegol wedi ei gynnwys fel nod o fewn **Cynllun Strategol y Cyngor**. Rydym yn cydweithio gyda Grŵp Cynefin a Chymdeithas Tai Gogledd Cymru i ddatblygu cartrefi sy'n addas ar gyfer pobl hŷn prysur gan addasu'r cymorth fel mae eu hanghenion yn newid wrth iddynt fynd yn hŷn. Byddwn yn cydweithio i ddatblygu ac ystyried opsiynau eraill o ran datblygu ac ariannu darpariaeth yn y dyfodol mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys edrych ar Dai Gwarchod sy'n eiddo i Gymdeithasau Tai.

Mae Tai Gofal Ychwanegol yn cael ei weld fel cysyniad weddol newydd yng Ngwynedd, mae'r ddau gynllun presennol wedi bod yn llwyddiannus gyda'i trigolion ond mae hyrwyddo ei nod ac buddion yn parhau yn her. Un peth sydd yn glir, bydd cynnig yr un lefel o gynllun o ran maint a darpariaeth gweithgareddau I breswylwyr am fod yn her. Eto, mae'r Strategaeth yn cynnig cyfle I ddatblygu tai gofal ychwanegol 'ysgafn' yng Ngwynedd gan ddefnyddio stoc presennol tai gwarchod a darpariaeth pwrpasol o fewn ein hardaloedd gwledig.

**Crynodeb o'r ddarpariaeth gofal Preswyl a Nyrsio presennol yng Ngwynedd**

- Mae 37 Cartref Preswyl a Nyrsio yng Ngwynedd. Mae 26 Cartref o fewn y sector breifat, a 11 Cartref yn rhan o ddarpariaeth fewnol y Cyngor
- Darperir gofal nyrsio gan y sector breifat yn unig, gyda 16 o'r Cartrefi efo gwelyau Nyrsio
- Mae 16 Cartref wedi eu lleoli yn ardal Arfon; 11 Cartref yn Nwyfor a 8 Cartref ym Meirionnydd
- Mae cyfanswm o 1,108 gwely preswyl neu nyrsio yng Ngwynedd, 790 gwely o fewn y sector breifat a 318 gwely yng nghartrefi'r cyngor
- Mae 539 gwely preswyl; 95 gwely preswyl EMI; 356 gwely Nyrsio; 118 gwely Nyrsio EMI

DRAFT

- Ar y 31 o Orffennaf, 2014 roedd 94% o'r gwelyau preswyl a/neu nyrsio yn llawn yng Ngwynedd. Roedd 68 gwely gwag ar gael o fewn y Sir
- Nid oedd gwelyau gwag Preswyl na Nyrsio EMI yn ardal Meirionnydd ar y 31 o Orffennaf, 2014
- Roedd 49 (6%) gwely gwag o fewn y sector breifat a 19 (6%) gwely gwag o fewn cartrefi'r Cyngor

Ar ddiwedd 2013/14 roedd cyfartaledd o 25.59 person am bob 1,000 o'r boblogaeth dros 65 oed wedi eu cefnogi mewn gofal preswyl neu nyrsio. 19.84 oedd cyfartaledd Cymru.

Yr hyn sydd yn glir o'r uchod yw nad oes cysondeb o ran gwasanaeth Preswyl a Nyrsio ar draws y Sir. Nid yw'n bosib chwaith ddatgan yn glir beth yr bwriad rhai o'r ddarpariaeth breswyl yn y sector breifat gydag enghreifftiau diweddar o gartrefi yn cau oherwydd rhesymau gwahanol. Mae'n fwriad edrych ar ddarpariaeth tymor hir y sector hwn ar lefel rhanbarthol.

**Awdurdodau Lleol eraill**

Fel rhan o'n gwaith ymchwil fe edrychwyd ar ddata awdurdodau lleol cyfagos gan gymharu'r stoc llety sydd yn bodoli ynddynt. Yn gyffredinol mae Môn a Conwy yn cynnig llawer mwy o unedau TG a TGY neu wlâu preswyl a nyrsio i bobl hŷn na Gwynedd a Cheredigion.

Ar hyd yr holl amrediad oedran yr edrychwyd arno 65-74, 75-84 a 85+ mae Ceredigion yn cynnig mwy o unedau Tai Gwarchod y pen gyda Gwynedd yn cynnig mwy o unedau Tai Gofal Ychwanegol a gwelyau preswyl a nyrsio.

DRAFT

**Ymgysylltu a chydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid**

**Ymgysylltu a phartneriaid allweddol**

Yn dilyn cyflwyniad i **Bartneriaeth Tai Gwynedd** yn amlinellu ein bwriad wrth greu'r strategaeth hon, fe ddatganwyd diddordeb ganddynt i ymwneud a'r prosiect o'r dechrau, gan weithio gyda ni i adnabod canlyniadau strategol a llunio datrysiadau a chynllun gweithredu fel rhan o'r strategaeth.

Cysylltwyd hefyd â holl **Gynghorau Cymuned** Gwynedd gyda 9 Cyngor yn gyrru ymateb. Derbyniwyd canlyniadau holiadur, a gafodd ei ddosbarthu yn ddiweddar gan Gyngor Cymuned Felinheli[9].

Fe gysylltwyd hefyd a nifer o fudiadau perthnasol i'r gwaith hwn. Derfynwyd adroddiad defnyddiol gan y **RNIB** Homes for **People with dementia and sight loss** ac fe e-bostiwyd canllawiau penodol gan y **Gymdeithas Alzheimer** yn cynnig sylwadau ar addasiadau i ddarparu ar gyfer pobl gyda dementia. Gellir gweld y rhain yn Atodiad B ac Atodiad C. Hefyd fe gafwyd ymateb gan a **Canllaw**, sydd yn canolbwyntio ar alluogi pobl hŷn fregus i fyw yn ddiogel ac yn annibynnol yn y gymuned.

**Ymgysylltu a defnyddwyr gwasanaeth presennol a dyfodol**

Fel rhan o'n gwaith ymgysylltu mi drefnwyd grwpiau ffocws gyda fforymau ardal **Age Cymr**u yng Ngwynedd, **Cyngor Pobl Hŷn Gwynedd** a **Grŵp Craidd Cydraddoldeb Anabledd Gwynedd.**

**Prif negeseuon o'r gwaith ymgysylltu**

-mwyafrif helaeth o bobl a gymerodd rhan yn y grwpiau ffocws yn nodi bod eu cartref presennol yn addas i'w anghenion nawr, gyda nifer yn datgan bod addasiadau wedi cael eu gwneud i'w wneud yn addas.

-nifer yn cydnabod mae'n debyg na fyddai eu cartrefi presennol yn debyg o fod yn addas pe bai eu hiechyd yn dirywio.

-y prif rwystrau a gafodd eu hadnabod oedd gardd fawr, costau cynnal a chadw, grisiau yn y cartref ac ystafell ymolchi ar y llawr cyntaf.

-roedd consensws ymysg y grwpiau bod gwneud y penderfyniad i symud o'ch cartref presennol yn un anodd iawn, gan fod nifer wedi byw yn eu cartrefi presennol ers blynyddoedd.

---

[9] Gellir gweld yr holl sylwadau a dderbyniwyd yn Atodiad A.

-nifer fach iawn oedd wedi ystyried eu sefyllfa lletya ar gyfer y dyfodol, gyda chydnabyddiaeth bod pobl yn aml yn amharod i'w gymryd o ddifrif tan y bydd yn broblem

-roedd y mwyafrif y bobl a gymerodd rhan yn credu y byddai'n well ganddynt symud i Dai Gofal Ychwanegol yn hytrach na Gartref Preswyl

-roedd nifer yn poeni am ddarpariaeth dementia o fewn y sir, gyda hyn amlycaf ym Meirionydd.

-yn gyffredinol dymuniadau pobl oedd aros mor agos ag y gallent at eu cartrefi presennol, gan fod ganddynt rwydwaith o bobl a chymdeithas yno.

-daeth yn amlwg nad oedd pobl yn ymwybodol o'r opsiynau llety sydd yn bodoli yng Ngwynedd nag ychwaith gwasanaethau ataliol sydd yn cael eu cynnig.

-angen ystyried anghenion pobl hŷn ac anabledd wrth gynllunio datblygiadau newydd.

-diddorol oedd nodi bod rhai o ardal Bangor wedi ystyried Tai Gofal Ychwanegol yn sgil cyhoeddusrwydd am ddatblygiad newydd yn yr ardal.

-------------------------

-trafodwyd ymateb nifer o Gynghorau Gymuned yr angen am dai fforddiadwy un/dwy lofft ar un llawr (yn benodol mewn ardal gwledig Dwyfor).

- pwysleisiwyd gan y Cynghorau Cymuned pwysigrwydd cael amrywiaeth o opsiynau llety ar raddfa leol, fel nad yw pobl yn gorfod symud i le dieithr.

-roedd nifer yn tynnu sylw at ddarpariaeth o lety addas ar gyfer bob a dementia o fewn y sir.

DRAFT

**Adnabod ardaloedd penodol**

Wrth ddadansoddi'r data, mi ddaeth i'r amlwg bod rhai ardaloedd yn dod i'r brig mewn nifer o feysydd ac felly mi edrychwyd yn fwy manwl ar yr ardaloedd hyn, gan edrych ar boblogaeth 65-74, 75-84 a 85+ (canran a niferoedd) ar hyn bryd, amcangyfrif i'r dyfodol a tueddiadau'r gorffennol. Edrychwyd hefyd ar gyfansoddiad cartrefi bobl 65+ yn yr ardaloedd hyn, rhagfynegiad niferoedd dementia, stoc llety yn yr ardaloedd hyn a pellter teithio i gartrefi preswyl a nyrsio. Ar gyfer dadansoddiad llawn o'r anghenion yn yr ardaloedd hyn gweler Atodiad 2.

Wrth edrych ar ddata poblogaeth yn unig mi roedd 10 LSOA[10] yn dod i'r brig, ond wrth i ni ychwanegu a chymharu mwy o ddata i'w cymharu mi roedd 5 LSOA yn dod i'r amlwg yn gyson ar ben y rhestr. Y 8 LSOA oedd:

- Tywyn 1
- Porthmadog (Gorllewin)
- Aberdaron Botwnnog a Tudweiliog
- Dyffryn Ardudwy, Llanbedr
- Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel
- Llanbedrog ac Abersoch
- Llanbedr
- Caernarfon (Menai)

Gellir gyfuno rhai o'r ardaloedd hyn gyda'i gilydd yn ol ardal ddaearyddol:

- Dyffryn Ardudwy a Llanbedr
- Tywyn ac Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel
- Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog a Llanbedrog ac Abersoch

[10] Local Super Output Area



DRAFT

**Prif negeseuon**

1. **Cefnogi unigolion i aros yn eu cartrefi cyn hired â phosib**

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Annog pobl i ystyried ac i gynllunio eu dymuniadau lletya yn gynharach
- Gwneud cartrefi pobl hŷn yn addas iddynt gallu aros yn eu cartrefi pan fo hynny'n addas a phosib
- Hyrwyddo defnydd o offer ac addasiadau posib ee offer teleofal
- Cadw darpariaeth gofal ysbaid/ gwlâu dros dro o fewn y Sir

2. **Sicrhau llety addas i bobl hŷn Gwynedd**

Yn unol a chefnogi pobl hŷn i aros yn eu cartrefi, rydym am sicrhau bod amrywiaeth o opsiynau lletya ar gael i bobl hŷn Gwynedd

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Sicrhau bod defnydd llawn yn cael ei wneud o'r ddarpariaeth Tai Gwarchod sydd yn bodoli yn y Sir
- Cynyddu'r ddarpariaeth o Dai Gofal Ychwanegol o fewn y sir
- Lleihau'r angen am wlâu mewn cartref preswyl yn y Sir drwy weithredu ar yr uchod. Yn dilyn cynnydd tebygol mewn galw, bydd angen rhoi ystyriaeth i gynyddu'r darpariaeth llety nyrsio cyffredinol
- Yn dilyn cynnydd tebygol mewn galw, bydd angen ymchwilio i gynyddu'r darpariaeth llety gofal nyrsio EMI

DRAFT

## 3. Canfod ardaloedd daearyddol penodol ble mae'n debygol y bydd galw uchel

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Archwilio posibilrwydd creu cynlluniau penodol i'r ardaloedd canlynol yn sgil cael eu hadnabod fel ardaloedd i'w blaenoriaethu o ran datblygu opsiynau llety:
  - Dyffryn Ardudwy a Llanbedr
  - Tywyn ac Aberdyfi, Bryncrug a Llanfihangel
  - Aberdaron, Botwnnog, Tudweiliog a Llanbedrog ac Abersoch

  Cynnal trafodaeth â phartneriaid i drafod a chyd gynllunio darpariaeth lletya o fewn y Sir

## 4. Sicrhau bod pobl hŷn Gwynedd yn ymwybodol o'r opsiynau llety sy'n bodoli o fewn y Sir a bod gwybodaeth hygyrch ar gael.

Yr hyn yr ydym yn gobeithio ei gyflawni yw:

- Gwella ansawdd a darpariaeth gwybodaeth gan sicrhau bod gwybodaeth hygyrch ar gael i bobl ynglŷn â holl opsiynau lletya pobl hŷn Gwynedd ynghyd ag addasrwydd y llety
- Cydweithio a phartneriaid perthnasol i lunio a dosbarthu'r gwybodaeth hwn

DRAFT

Tud. 35

**Cynllun Gweithredu**

Er mwyn llunio cynllun gweithredu gellir ei gyflawni drwy modd gynhwysol mae'r isod yn cael ei awgrymu fel pwynt gweithred cyntaf:

- Trefnu sesiwn drafod gyda Phartneriaeth Tai Gwynedd i drafod prif negeseuon gyda hwy
- Cynnal trafodaeth gyda phartneriaid o fewn y maes iechyd

Mae'r isod yn enghraifft / man cychwyn ar lunio cynllun gwaith cynhwysfawr:

| **Nôd** | **Gweithred** | **Swyddog/ Grŵp cyfrifol** | **Amserlen** | **Cynnydd** |
|---|---|---|---|---|
| **Cefnogi unigolion i aros yn eu cartrefi cyn hired â phosib** | | | | |
| Cynyddu ymwybyddiaeth o opsiynau ar gyfer pobl hyn ymysg staff proffesiynol o fewn iechyd a gofal | | | | |
| Sicrhau bod darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol i'w gael yn Arfon, Dwyfor a Meirionydd | Sicrhau bod Cynllun Tai Gofal Ychwanegol ym Mhorthmadog yn cael ei adeiladu o fewn yr amserlen | | | |
| Cynnig gwasanaeth warden sydd gan Gymdeithasau Tai i unigolion o fewn y gymuned yn ehangach | | | | |
| Rôl iechyd a gwasanaethau cymdeithasol sef darpariaeth step | | | | |

DRAFT

Tud. 36

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| up step down / gofal canolraddol / a chyd gomisiynu | | | | |
| Teleofal- bod y math priodol o offer yn cael ei gynnig er mwyn cynnal annibyniaeth | | | | |
| Cynnig cynllun 'symud i eiddo llai' mewn cydweithrediad gyda Cymdeithasau Tai a Canllaw | | | | |
| **Canfod ardaloedd daearyddol penodol ble mae'n debygol y bydd galw uchel** | | | | |
| -Cynnal gwaith ymchwil bellach i'r ardaloedd gyda'r dwysedd uchaf o bobl hyn | Gwaith ymchwil ag ymgysylltu o fewn yr ardaloedd hyn i asesu'r angen a'r galw am lety | | | |
| Adnabod opsiynau o ran darpariaeth yn yr ardaloedd sydd ag dwysedd uchaf | | | | |
| **Sicrhau llety addas i bobl hŷn Gwynedd** | | | | |
| Creu datganiad sefyllfa o ran darpariaeth tai a gofal yn y Sir | | | | |
| Creu safon ac egwyddorion gwasanaeth ar gyfer tai gwarchod yn y Sir sy'n seiliedig ar fodel Tai Gofal Ychwanegol | | | | |
| | Gwaith rhanbarthol yn digwydd i | | | |

DRAFT

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth llety nyrsio / gofal EMI | sefydlu hwb comisiynu fydd yn rhoi arweiniad ar sut allwn ddylanwadu’r farchnad breifat mewn rhai ardaloedd | | | |
| **Sicrhau bod pobl hŷn Gwynedd yn ymwybodol o’r opsiynau llety sy’n bodoli o fewn y Sir a bod gwybodaeth hygyrch ar gael** | | | | |
| Sicrhau bod gwybodaeth ynglŷn ag opsiynau llety ee TG a TGY ar gael i bobl hŷn Gwynedd | Adolygu’r a diweddaru’r daflen wybodaeth | | | Taflen wybodaeth ar gael ac wedi ei rhannu a grwpiau/ mudiadau perthnasol |

DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Craffu Gwasanaethau** |
| **DYDDIAD** | **28 IONAWR 2016** |
| **TEITL** | **TROSOLWG PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2015-16 (CHWARTER 2) – GOFAL** |
| **PWRPAS** | **Ymateb i gwestiynau a godwyd gan aelodau wedi i'r Adroddiad trosolwg gael ei gyflwyno** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant** |

## Pwrpas yr Adroddiad

1. Yn dilyn cyflwyno'r Adroddiad Trosolwg Perfformiad, codwyd cyfres o gwestiynau gan aelodau yn benodol yn ymwneud â gwaith yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant. Mae nifer o'r cwestiynau yn ymwneud yn benodol â threfniadau caffael a chontractio a bydd cyflwyniad ar yr agweddau yma yn cael ei raglennu ar gyfer un o gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor neu'r Cyfarfod Paratoi. Bwriad yr adroddiad hwn yw ymateb i'r materion eraill a godwyd gan yr aelodau.

**HER GOFAL**

2. Er yn cydnabod potensial y prosiect sydd wedi ei adnabod yn y Cynllun Strategol, mae'r Aelodau'n rhannu gofid yr Aelod Cabinet fod yna risg o beidio cael effaith go iawn ar drigolion drwy drawsffurfio gwasanaethau gyda'n partneriaid.

3. Pwrpas y prosiect hwn yw ceisio sicrhau fod pobl Gwynedd yn gwbl glir o'r her sydd yn ein wynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithredu'n gymunedol. Bydd llwyddiant y prosiect hwn yn allweddol o ran gwaith ataliol a sicrhau ein bod fel Cyngor, ynghyd â'n partneriaid, yn ymateb yn rhagweithiol i'r newid. Ar ddiwedd y prosiect, y nod yw y bydd gan bobl Gwynedd ddealltwriaeth o'r maes a fydd yn golygu ein bod yn cyfrannu ac yn cefnogi'n naturiol y rhai mwyaf bregus yn ein cymunedau.

4. Erbyn Ebrill 2016, y nod oedd:
   - Creu y 'stori' ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol
   - Datblygu rhaglen ddigwyddiadau ar gyfer budd-ddeiliaid allweddol
   - Datblygu adnoddau ar gyfer gwella ymwybyddiaeth y cyhoedd
   - Datblygu a dechrau gweithredu strategaeth gyfathrebu drwy ddefnyddio cyfryngau amrywiol
   - Adnabod cryfderau cymunedau, hyrwyddo hyfywdra ac ysgogi gweithredu cymunedol
   - Gweithio efo cymunedau a phartneriaethau allweddol i weithredu cynlluniau sydd yn hybu llesiant

5. Y prif gerrig milltir ar gyfer y prosiect yw:

   - Datblygu'r 'Stori' a rhaglen digwyddiadau / ymgysylltu.
   - Datblygu adnoddau ar gyfer codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a defnyddwyr, rhyddhau datganiadau i Newyddion Gwynedd a phapurau lleol.

- Cynnal cyfres o sesiynau ymgynghori gyda chymunedau a fforymau defnyddwyr er mwyn adnabod cryfderau, adnoddau, cyfleoedd anffurfiol a bylchau o fewn cymunedau.
- Datblygu a gweithredu cynllun hybu llesiant sy'n ymateb i'r bylchau o fewn cymunedau ac sy'n ysgogi gweithredu cymunedol.

6. Ystyrir bod y cynnydd yn erbyn cerrig milltir 1 a 2 yn dda gyda llawer o waith paratoi a datblygu wedi ei wneud i gyflawni carreg filltir 3. Mae cynllun prosiect a rhaglen waith mewn lle ac rydym wedi mapio budd-ddeiliaid a datblygu rhaglen gyfathrebu/codi ymwybyddiaeth ar gyfer pob grŵp o fudd-ddeiliaid. Mae gweithredu wedi dechrau gan gynnwys trefnu cyfres o ddigwyddiadau ar gyfer budd-ddeiliaid, derbyn eu barn, syniadau a chodi eu hymwybyddiaeth o ofynion y Ddeddf. Mae datganiadau i'r wasg wedi eu rhyddhau, ynghyd ag erthyglau yn Rhaeadr. Bydd datganiadau pellach yn cael eu rhyddhau yn fuan, gan gynnwys papurau bro ac hefyd erthygl yn Newyddion Gwynedd ym mis Mawrth 2016.

7. Mae'r Grŵp Craidd Her Gofal a'r Bwrdd Prosiect yn cyfarfod yn fisol.

8. Cynhaliwyd 3 sesiwn hyfforddi Aelodau er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Ddeddf, datblygwyd llyfryn gwybodaeth ar eu cyfer ac mae sawl erthygl wedi bod yn Rhaeadr.

9. O ran staff – cynhaliwyd 2 gynhadledd ym mis Tachwedd a Rhagfyr. Mae adroddiad ar gael sy'n crynhoi sylwadau y grwpiau trafod ynghyd â chynllun gweithredu er mwyn ymateb a gweithredu ar rai o'r materion hyn. Yn ogystal, mae bwletin staff misol yn cael ei ddosbarthu i ddiweddaru staff ar faterion allweddol a newyddlen chwarterol i ddiweddaru ar unrhyw ddatblygiadau. Mae bwriad i sefydlu 'Grŵp Gweithredu'r Ddeddf' sef grŵp ymgynghorol gyda staff rheng flaen a fydd yn sicrhau fod y trefniadau angenrheidiol mewn lle ar gyfer gweithredu'r Ddeddf ac a fydd hefyd yn rhoi cyfle i staff fwydo mewn i drefniadau cynllunio a comisiynu gwasanaeth.

10. Credir bod y Prosiect wedi llwyddo i godi ymwybyddiaeth staff ac Aelodau o ofynion y Ddeddf a'i oblygiadau i Wynedd. Roedd yn bwysig iawn pwysleisio nad oes arian ychwanegol yn dod gyda'r Ddeddf, o ganlyniad rhaid i'r trawsnewid ddigwydd o fewn yr adnoddau ariannol presennol, ac mae'r adnoddau hynny hefyd yn lleihau.

11. Y cam nesaf fydd codi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithio gyda chymunedau i adnabod cryfderau, cyfleoedd a bylchau. Nod y gwaith yma ydi datblygu gwasanaethau ataliol er mwyn lleihau gor-ddibyniaeth ar wasanaethau cymdeithasol a sicrhau'r gallu i fod yn cefnogi pobl fregus o fewn y gymuned. Mae gwaith mapio gwasanaethau ataliol wedi dechrau a bydd yn gwaith hwnnw yn parhau am rhai misoedd. Bu i'r Tîm ymweld â Merched y Wawr Caernarfon ym mis Ionawr i wneud cyflwyniad ar yr Her Gofal. Roedd yn sesiwn llwyddiannus a gydag adborth positif ac adeiladol iawn. Bydd y sesiwn yma o gymorth i ni gynllunio ymweld â grwpiau pellach. Dros yr wythnosau nesaf, bydd ymweliadau arbrofol pellach yn cael eu cynnal gyda grwpiau eraill a gyda cynghorau Tref a Chymuned. Wedi asesu yr adborth, gellir ystyried beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r neges i gynulleidfa ehangach.

12. Cydnabyddir ei bod yn anodd mesur yr hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma o ran effaith ar drigolion gyda phendantrwydd mesur rhifol, ond yn sicr mae staff ac Aelodau wedi gwerthfawrogi cael eu cynnwys yn y gwaith ac yn teimlo fod ganddynt well dealltwriaeth o'r Ddeddf a'i oblygiadau i Gwynedd.

13. Nid yw'r cynnydd a wnaed hyd yma ar y gwaith gyda cymunedau a llesiant cystal. Mae hyn yn bennaf yn ymwneud â thri rheswm:-:

- Oedi mewn penodi Rheolwr Llesiant.
- Oedi mewn deunyddiau cenedlaethol – Côd Ymarfer a deunyddiau cyfathrebu'r Ddeddf.
- Cyfyngiadau cyllidebol.

14. Gellir adrodd bod symudiadau wedi ei wneud diweddar ar y ddau fater cyntaf ac fe ddylai hyn, ynghyd â'r rhaglen i gyfarfod â grwpiau a chynghorau lleol arwain at godi momentwm y gwaith dros y 6 mis nesaf.

### Llwybrau Gyrfa Gofal Gwynedd

15. Roedd yr aelodau yn awyddus i wybod beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran datblygu Llwybrau Gyrfa (Career Pathways) i weithwyr gofal.

16. Ar gyfer **Gweithwyr Cymdeithasol**, mae'r Cyngor mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor ar gyfer darparu cwrs MA mewn Gwaith Cymdeithasol. Rydym wedi ymrwymo i ddarparu nifer penodol o leoliadau gwaith mewn timau gwaith cymdeithasol mewn blwyddyn. Mae nifer uchel o'r myfyrwyr MA yn sicrhau swyddi gwaith cymdeithasol yng Ngwynedd wedi iddynt gymhwyso.

### Fframwaith Dysgu ac Addysg Proffesiynol Parhaus

| | |
|---|---|
| Gweithwyr Newydd - Gweithwyr Cymdeithasol yn grŵp o staff sydd yn cofrestru efo'r Cyngor Gofal | Blwyddyn 1 -Rhaglen Blwyddyn Gyntaf Mewn Ymarfer - rhaglen o weithdai a chyfarfodydd cefnogi.<br>Blwyddyn 2-3 Rhaglen cadarnhau sydd yn dod yn fandadol i weithwyr newydd ar 01/04/16 |
| Gweithwyr Profiadol 3 mlynedd + | • Rhaglen Ymarferwyr<br>• Cymhwyster 'Approved Mental Health Practitioner ' i weithwyr profiadol<br>• Cymhwyster dysgu Ymarfer i weithwyr profiadol |
| Uwch Ymarferwyr | Rhaglen Uwch Ymarferwyr neu gwrs TMDP (Team Manager Development Programme) Cymhwyster Rheoli |
| Arweinyddion timau/Rheolwyr Ardal | Rhaglen TMDP (Team Manager Development Programme) Cymhwyster Rheoli i reolwyr gofal |
| Rheolwyr Canol | Rhaglen Rheolwyr Canol yn cychwyn Mis Hydref 2016 Cwrs wedi ei achredu rheoli ar gyfer rheolwyr yn y maes gofal |
| Penaethiaid a Chyfarwyddwyr | Rhaglen Arwain yn Strategol 'SSIA' (Social Services Improvement Agency) Rhaglen Datblygu |

**Gweithlu Gofal Cymdeithasol (Gofal Cartref, Preswyl, Gweithwyr Cefnogol Anableddau Dysgu)**

| | **Cymwysterau Gofynnol a Rhaglenni Datblygu Gyrfa** |
|---|---|
| Gweithwyr Newydd | Cwrs Anwytho 7 diwrnod yn cynnwys cymorth cyntaf, diogelu, iechyd a diogelwch, gweithio mewn ffordd person canolog a galluogi, cyfathrebu, diogelu data, diogelwch bwyd & dementia |
| Gweithwyr Gofal | • Cymhwyster Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal (Gofyn Cenedlaethol)<br>Rhaglenni Datblygu<br>• Dyfarniad a Thystysgrif Lefel 2 Anableddau dysgu<br>• Dyfarniad Lefel 2 Dementia<br>• Dyfarniad Lefel 2 'End of Life care' |
| Uwch Cymhorthydd Gofal / Goruchwylwyr | • Cymhwyster Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal<br>• Advanced Practioners Award lefel 5 i ddarparu nhw ar gyfer rôl rheolwyr |
| Rheolwyr Cynorthwyol /is rheolwyr ardal | • Cymhwyster Lefel 5 Rheoli<br>• Dyfarniad Lefel 3 Ymwybyddiaeth Dementia |
| Rheolwyr | • Cymhwyster Lefel 5 Rheoli<br>• Dyfarniad Lefel 3 Ymwybyddiaeth Dementia |
| Rheolwyr ardal | • Cymhwyster Lefel 5 Rheoli |

**Y Sefyllfa Genedlaethol**

17. Yn ddiweddar cyhoeddwyd Ymgynghoriad ar ddatblygiad i weithlu Gofal Cartref. Bydd y cynigion yn dylanwadu ar ein gweithlu gofal yng Ngwynedd yn 2016/17 felly ystyrir y dylid cymryd y cyfle i leisio ein barn ar yr argymhellion. Y dyddiadau ar gyfer y cyfnod ymgynghoriad yw 19/01/16 hyd at 04/04/16. Gellir gweld 'Dogfen ymgynghori ynghylch y gweithlu gofal cartref' trwy gysylltu gyda y linc canlynol:- http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/workforce/?lang=en

18. Gwneir y datganiad canlynol ynglŷn â llwybrau gyrfa yn y ddogfennaeth ymgynghori:-

'*Er mwyn codi statws proffesiynol gweithwyr gofal cartref, rydym wedi cyhoeddi y bydd gweithwyr gofal cartref yn cael eu cofrestru gyda rheoleiddiwr y gweithlu – Cyngor Gofal Cymru. Bydd rhaglen ddatblygu dair blynedd i weithwyr gofal cartref yn cychwyn ym mis Ebrill 2016 a bydd y gofrestr yn agor ym mis Ebrill*

*2018. Bydd gofyn i bob gweithiwr gofal cartref fod wedi'i gofrestru erbyn mis Ebrill 2020. Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Cyngor Gofal Cymru25.*

*Mae gan fwyafrif y proffesiynau lwybrau gyrfa diffiniedig. Er enghraifft, mae gan weithwyr cymdeithasol fframwaith dysgu ac addysg proffesiynol parhaus. Mae'r fframwaith yn anelu at sicrhau bod gan weithwyr cymdeithasol y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwysterau uwch sydd eu hangen arnynt wrth iddynt gamu ymlaen o fod yn ymarferwyr newydd gymhwyso i fod yn ymarferwyr profiadol ac, yn achos rhai, wrth iddynt ymgymryd â swyddi ymarfer uwch26.*

*Mae gennym nifer o syniadau ynglŷn â gwella atyniad gofal cartref o ran bod yn yrfa gan gynnwys syniadau am ddatblygu llwybr gyrfa. Dyma'r syniadau:*

*j. Fel rhan o'r broses gofrestru, yn mynnu bod pob gweithwyr i gyflawni cymhwyster Lefel gofal cartref 2 neu Lefel 3 Diploma mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a mynnu dangos bod gweithwyr gofal cartref wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant a datblygiad parhaus.*

*k. Datblygu 'llwybr gyrfa' i weithwyr gofal cartref. Byddai hwn wedi'i gydgysylltu â'r llwybr gyrfa i weithwyr cymorth gofal iechyd. Byddai'r llwybr gyrfa'n ategu datblygiad gweithwyr gofal cartref drwy gydol eu gyrfa.*

*l. Cyflwyno amrywiaeth ac arbenigaethau i rôl gwaith gofal cartref drwy ddarparu hyfforddiant a dull datblygu i weithwyr gofal i'w galluogi i arbenigo mewn gweithio gyda phobl sydd â dementia, er enghraifft, i ymgymryd â thasgau iechyd priodol neu rolau cymorth ar gyfer oedolion sy'n dibynnu ar gyffuriau neu alcohol'.*

**Cartrefi Cofrestriad Deuol**

19. Bydd yr aelodau yn ymwybodol bod cartrefi gofal nyrsio ar draws y wlad yn wynebu problemau yn ymwneud a cheisio adnabod a phenodi nyrsys cymwysedig. Mae'r broblem yng Ngogledd Cymru wedi cynyddu yn ddiweddar yn anffodus ac yn debygol o fod yn bodoli am gyfnod eto gan nad oes digon o nyrsys wedi eu hyfforddi dros y blynyddoedd i gwrdd a'r gofyn presennol. Tybir efallai o drafod gyda rheolwr o fewn y maes Iechyd, bod yna elfen o beidio rhagweld maint yr angen yn sgil sawl peth:-

- meddygon yn dirprwyo mwy o ddyletswyddau i broffesiynau eraill
- nifer y staff nyrsio sydd wedi ymddeol.

20. Un o brif broblemau y darparwyr cartrefi nyrsio ar hyn o bryd, boed hwy yn ddarparwyr sector gyhoeddus neu sector breifat, yw sicrhau bod ganddynt nifer digonol o nyrsys i redeg y ddarpariaeth yn ddiogel ac yn unol a safonau gofal a disgwyliedig.

21. Gallwn adrodd bod darn o waith wedi ei gomisiynu gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor ar y cyd i edrych ar opsiynau o ran modelau gwahanol y gellid eu hystyried i geisio ymateb i'r broblem yma. Fel ag y mae aelodau y Pwyllgor wedi amlygu yn y gorffennol, mae gan y Cyngor nifer o gartrefi preswyl mewnol, a bwriad y gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan yr Adran yw gwneud ymchwil dechreuol i'r opsiynau sydd yn agored i'r Cyngor o ran

defnydd gwelyau yn y cartrefi hyn ac efallai mewn cartrefi preswyl preifat er cryfhau darpariaeth ar lefel lleol ac mewn ardaloedd lle mae dwysedd poblogaeth yn is.

22. Nid yw yn ymddangos i ni bod rhwystr cyfreithiol amlwg i ddarparu gofal nyrsio mewn cartrefi sydd yn cael eu redeg gan y Cyngor. Wedi dweud hyn, nid ydym chwaith yn ymwybodol o unrhyw awdurdod lleol Cyngor sydd wedi troedio mewn i'r maes clinigol.

23. Yn amlwg, ni ellir rhagdybio canlyniadau y gwaith ymchwil yma, ond os oes opsiynau ymarferol y gellir eu hystyried i gyfrannu i drefniant gofal a iechyd mwy cadarn ar lefel lleol yna byddai angen i'r Cyngor sicrhau bod gan y cartrefi hyn y trosolwg clinigol. Gan nad oes gan y Cyngor strwythur glinigol ei natur yn barod, byddai angen sicrhau bod y trefniadau hyn yn gwbl briodol ac yn cwrdd a gofynion yr arolygiaeth.

24. Mae yn debyg y byddai yr her o ran recriwtio nyrsys yn parhau, o leiaf yn y tymor byr a chanolig i'r ddarpariaeth fewnol fel ag y mae i'r sector breifat ond efallai bod modd edrych ar fodel o gydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd er mwyn cryfhau y capasiti gweithlu a goruchwyliaeth clinigol.

25. Bydd canfyddiadau yr ymchwil yn cael eu ystyried gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd ac fe fyddant yn debygol o fwydo mewn i drafodaethau gyda y Llywodraeth wedi hynny. Rhagwelir y bydd adroddiad pellach yn crynhoi y canfyddiadau yn cael ei baratoi ar gyfer y Pwyllgor Craffu fel rhan o'r broses o osod cyfeiriad ar gyfer siapio y ddarpariaeth yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Craffu Gwasanaethu |
| **DYDDIAD** | 28.01.16 |
| **TEITL** | Rhaglen Waith - Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15 (Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol - AGGCC) |
| **PWRPAS** | Craffu'r 'Rhaglen Waith' (Atodiad 1) sydd wedi ei lunio mewn ymateb i Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15 (Atodiad 2) |
| **AWDUR** | **Adroddiad Blaen** - Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol<br><br>**Atodiad 1** - Morwena Edwards, Cyfarwyddwr Statudol<br>Aled Davies, Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant<br>Marian Parry Hughes, Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd<br><br>**Atodiad 2** - Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol |

## 1 Y penderfyniad a geisir / pwrpas yr adroddiad

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu'r 'Rhaglen Waith' (Atodiad 1) sydd wedi ei lunio mewn ymateb i Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15 (Atodiad 2)

## 2 Cyflwyniad

2.1 Ar y 30 Hydref 2015, bu i ni dderbyn yn swyddogol Adroddiad Blynyddol ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol am y flwyddyn 2014/15. Cafodd yr adroddiad hwn ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau ym mis Tachwedd 2015 ac yna i'r Cabinet yn Rhagfyr.

2.2 Mae'n debyg ei fod yn deg nodi fod yr adroddiad yn bositif iawn ac yn amlygu mannau amlwg y mae'r arolygwyr wedi profi cynnydd. Er hyn mae elfennau lle mae angen sylw pellach ac mae'r Cyfarwyddwyr Statudol, ynghyd a'r swyddogion perthnasol, wedi ystyried y materion hyn wrth lunio'r rhaglen waith dan sylw (Atodiad 1).

2.3 Er fod elfennau o'r Rhaglen Waith yn cael eu gweithredu, mae hyblygrwydd i fod yn ychwanegu neu addasu yn ystod y flwyddyn.

## 3 Ystyriaethau Perthnasol

3.1 Amherthnasol

## 4 Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

4.1 Mae'r Adroddiad Blynyddol yn linyn mesur greiddiol a hanfodol i'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau dysgu a datblygu parhaus. Mae barn a sylwadau'r craffwyr yn rhan hanfodol o'r broses honno.

4.2 Credir y byddai'n fanteisiol i'r Pwyllgor Craffu gael y darlun llawn o ymateb y Cyngor i'r adroddiad blynyddol, ac y galle'r Rhaglen Waith dan sylw hefyd fod o gymorth er mwy penderfynu ar elfennau penodol i'w craffu ymhellach.

## 5 Camau nesaf ac amserlen

5.1 Byddwn yn parhau i weithredu'r rhaglen waith (Atodiad 1).

## 6 Rhestr Atodiadau/Llyfryddiaeth

Atodiad 1 – Rhaglen Waith
Atodiad 2 - Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014 / 15

| Cyf | Meysydd i'w gwella (Atodiad 2) | Sylwadau perthnasol AGGCC (Atodiad 2) | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 1.1 | Gwelliannau yn yr arfer o amddiffyn oedolion agored i niwed | 6.6 - Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion.<br><br>6.7 - Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016. | *Camau Gweithredu yn unol â maes gwella 2.1.*<br><br>Yn ogystal mae'n fwriad adolygu trefniadau gweithredol Diogelu yn sgil y newidiadau i'r strwythur staffio a'r dyletswyddau statudol newydd daw i rym yn Ebrill 2016. Bydd y gwaith yma yn cael ei arwain gan Dîm Rheoli Oedolion , Iechyd a Llesiant. | Aled Davies |
| 1.2 | Moderneiddio gwasanaethau anableddau dysgu | 6.10 - .... Canfu'r cyngor fod angen moderneiddio ei wasanaethau anableddau dysgu a datblygu amrywiaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person i gynyddu annibyniaeth. Mae'r cyngor yn mabwysiadu'r model datblygu sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, ac mae hwn yn ceisio gwireddu dyheadau'n well wrth wneud pobl yn annibynnol. Mae'r agwedd hon yn hyrwyddo dysgu sgiliau newydd ac yn helpu pobl i wneud cymaint o bethau ag y gallant drostynt eu hunain. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2014-15, mae'r cyngor hefyd wedi ymgymryd ag adolygiad o wasanaethau i oedolion. Mae'r cyngor yn nodi y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2015. | Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad mae'r Arolygaeth yn mynd i gymryd camau dilynol yn ystod eleni. Un o'r prif gamau dan sylw yw'r archwiliad a gynhaliwyd yn Ionawr 2016. Mae'r archwiliad hwn yn rhan o raglen waith cenedlaethol ehangach ar draws Cymru. Rhagwelir felly y bydd argymhellion clir a chadarn yn cael eu cyflwyno ar gyfer y maes hwn, ac y byddem yn ymwybodol ohonynt yn Chwefror / Mawrth 2016. Bydd y Gwasanaeth yn manteisio'n llawn o fod yn cael barn yr arolygwyr ac yn sicrhau ein bod, os oes angen, yn gweithredu newidiadau mor fuan â phosib. | Aled Davies |
| 1.3 | Strategaeth a gwasanaethau comisiynu iechyd meddwl | 6.10 - Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn | Mae Bwrdd Prosiect wedi ei sefydlu i gyfarch materion gweithredol er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn comisiynu gwasanaethau o safon sydd yn cwrdd ag anghenion unigolion tra bod yn fforddiadwy ac yn cwrdd â chyfrifoldebau statudol. | Aled Davies |

| Cyf | Meysydd i'w gwella (Atodiad 2) | Sylwadau perthnasol AGGCC (Atodiad 2) | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | | perthynas ag ef yn 2015-2016..... | Mae gwaith wedi cychwyn o adolygu'r holl brosesau comisiynu gwasanaethau yn y maes er mwyn sicrhau fod gwasanaethau yn cynnig gwerth am arian ac yn gost effeithiol wrth gwrdd â safonau disgwyliedig<br><br>Mae prosesau caffael cadarn wedi eu cytuno ac yn cael eu dilyn wrth gomisiynu'r holl wasanaethau iechyd meddwl er mwyn sicrhau gwerth am arian.<br><br>Dros y 12 mis sydd i ddos fydd y prosiect hefyd yn blaenoriaethu adolygiadau yn edrych yn benodol ar:<br>• Gweithwyr Cefnogol<br>• Gofal Preswyl a Nyrsio<br>• Llety Cefnogol<br><br>Er mwyn sicrhau fod trefniadau newydd mewn lle sy'n cwrdd ar ofynion statudol. | |
| 2.1 | Diogelu oedolion | 6.6 - Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion....<br><br>6.7 - Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016. | Fel sydd wedi cael ei nodi yn yr adroddiad mae Diogelu'n flaenoriaeth i'r Cyngor. Trwy adolygu'r Cynllun Strategol ym mis Gorffennaf eleni comisiynwyd tri phrosiect trawsffurfiol yn y maes. Mae'r prosiectau hyn wedi eu comisiynu mewn ymateb i rai o'r heriau flwyddyn ddiwethaf. Yn benodol o ran y maes Oedolion mae'r prosiect isod wedi ei gomisiynu.<br><br>**D3 - Diogelu oedolion bregus**<br>Pwrpas y prosiect yw anelu i wella yn barhaus y trefniadau a diwylliant diogelu o fewn y maes oedolion. Erbyn diwedd Mawrth 2016, fe fydd y prosiect yn benodol wedi ymateb i argymhellion Adroddiad Winterbourne a hefyd adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn "Lle i alw'n gartref" gan:<br>• Ddatblygu ystod o wahanol ddulliau lle gall unigolion cael eu clywed<br>• Adnabod a oes defnydd addas o eiriolaeth a cheisio ymateb i unrhyw ddiffygion<br>• Ddarparu tystiolaeth bod y grwpiau corfforaethol yn gallu dangos eu bod yn gwrando ar lais oedolion bregus<br>Bydd cynnydd y prosiect hwn yn cael ei adrodd arno trwy drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, sydd ar hyn o bryd yn adrodd mewn cylch o 12 wythnos.<br><br>Ymhellach i'r comisiwn gwreiddiol yn y Cynllun Strategol, mae'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion Bregus wedi gofyn i Arweinydd Prosiect D3 sicrhau ei fod yn cynnwys unrhyw | Aled Davies |

| Cyf | Meysydd i'w gwella (Atodiad 2) | Sylwadau perthnasol AGGCC (Atodiad 2) | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | argymhellion o Adolygiadau Arfer Gwasanaethau (APR - *Adult Practice Review*).<br><br>Yn ymarferol o ran diogelu mae'r uned Diogelu wedi ei sefydlu wrth gwrs ac mae'r uned honno yn weithredol ar draws yr adrannau 'Plant a Chefnogi Teuluoedd' a 'Oedolion, Iechyd a Llesiant'. Mae'r Uned wedi ei lleoli o fewn yr adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac mae'r trefniadau rhwng yr uned hon a strwythur newydd yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn y broses o'i chadarnhau. Anelir i gadarnhau'r trefniadau erbyn Ebrill 2016. | |
| 2.2 | Cymorth i ofalwyr | 6.14 - Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwympo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132. | Bwriedir cynnal adolygiad o drefniadau cefnogi gofalwyr di dal yng Ngwynedd. Mae pwysau cynyddol yn debygol o fod ar ein gofalwyr di dal yma yng Ngwynedd i'r dyfodol ac yn benodol o fewn y maes gofal oedolion. Mae'n hanfodol fod y gefnogaeth addas ar gael iddynt os ydym am sicrhau y gallwn wireddu ein gweledigaeth i gefnogi fwy fwy o bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain. Felly mae angen sicrhau bod gennym y trefniadau cywir i fod yn eu cefnogi a'n bod yn glir o'r math o gefnogaeth sydd angen ei ddatblygu os oes diffygion.<br><br>Erbyn diwedd Mawrth 2017 byddwn felly wedi adolygu pa mor effeithiol yw ein trefniadau cyfredol ar gyfer cefnogi gofalwyr di dal ac, os oes angen, wedi penderfynu ar yr ymyraethau ychwanegol sydd eu hangen i gynnal gofalwyr i'r dyfodol. Penderfynwyd gwneud y darn yma o waith i asesu beth, os o gwbl, sydd angen ei wneud yn wahanol.<br><br>Bwriedir canolbwyntio ar y maes Oedolion, ond dylid sicrhau nad ydym anghofio am y gofalwyr ifanc rheini. Byddwn yn ystyried y briff yn fanylach yn ystod yr wythnosau nesaf ac yn penderfynu beth yn union ddylid ei gynnwys o ran yr Adolygiad.<br><br>O ran datblygu manylder y briff, gobeithir cael mewnbwn rhai o aelodau'r pwyllgor Craffu Gwasanaethau.<br><br>Yn benodol o ran asesiadau:<br><br>• Dylid nodi nad yw nifer o asesiadau a wnaethpwyd yn adlewyrchu'r nifer a gynigwyd. Nid yw'r rhai sy'n gwrthod asesiad yn cael eu cofnodi<br>• Mae Cerdyn Argyfwng Gofalwyr Gwynedd ar gael bellach ynghyd â llyfryn gwybodaeth newydd *Canllaw o ofalwyr: a fyddech yn gallu ymdopi mewn argyfwng?*<br>• Mae'r cerdyn ar gael yn dilyn asesiad gofalwyr. Mae'n bosib fod hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer yr asesiadau.<br>• Bwriedir adolygu'r ffurflen asesiad presennol er mwyn ei | Aled Davies |

| Cyf | Meysydd i'w gwella (Atodiad 2) | Sylwadau perthnasol AGGCC (Atodiad 2) | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | symleiddio.<br>• Rydym yn cydweithio gyda'r trydydd sector a'r sector preifat i wella darpariaeth seibiant yn y cartref.<br>• Mae rhestr aros am asesiadau mewn yn ardal oherwydd diffyg capasiti. | |
| 3.1 | Amseroldeb asesiadau cychwynnol | 6.21 - Mae perfformiad o ran amseroldeb asesiadau cychwynnol wedi gwella, ond mae'n dal i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (70% o'i gymharu â 76%), ac mae'n dal yn faes y mae angen i'r cyngor ei wella. | Mae cynnal gwelliant parhaus yn y maes hwn yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Adran. Mae perfformiad yn ystod dau chwarter cyntaf 15/16 wedi ei gynnal gyda 70.6% o asesiadau cychwynnol yn digwydd o fewn amserlen yn y chwarter cyntaf a 72.5% yn ystod yr ail chwarter, felly mae'r gwasanaeth yn nesáu tuag at y canran cenedlaethol a'r targed a osodwyd yn fewnol, sef rhwng 73% ac 80%. Mae'r Adran yn casglu gwybodaeth ynglŷn â'r rhesymau pam nad yw asesiadau yn cael eu cynnal ar amser ac nid oes unrhyw reswm penodol nodweddiadol yn sefyll allan, ond yn hytrach mae'n gyfuniad o resymau e.e. teulu ddim yn cadw'r apwyntiad, dim modd trefnu gyda'r teulu o fewn y saith diwrnod gwaith, pwysau gwaith, gwybodaeth ddim yn gyflawn er mwyn cau'r asesiad ac yn y blaen. Mae'r Uwch reolwr yn monitro perfformiad yn erbyn y dangosydd yma yn rheolaidd ac yn adrodd i Uwch Dim Rheoli'r gwasanaeth. | Marian Parry Hughes |
| 3.2 | Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant | 6.23 - Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd. | Yn ystod dau chwarter cyntaf 15/16, mae cynnydd wedi bod yn y niferoedd o blant sydd wedi eu cynnwys ar Gofrestr Amddiffyn Plant Gwynedd o 83 ar ddiwedd chwarter 2 14/15 i 98 ar ddiwedd chwarter 2 15/16. Mae hyn yn dilyn y patrwm cenedlaethol ar hyn o bryd, ond mae yn cynyddu pwysau ar y gwasanaeth o ran capasiti i gadeirio a chynnal cynadleddau o fewn yr amserlenni a nodir yn y canllawiau cenedlaethol. Mae gennym un cydlynydd a chadeirydd amddiffyn plant, ac erbyn hyn rydym wedi rhyddhau adnodd rhan amser i'w chynorthwyo o'r adnodd swyddogion adolygu annibynnol ar gyfer plant mewn gofal. Yn ystod chwarter 2 eleni cynhaliwyd cyfanswm o 66 o gynadleddau amddiffyn plant (cychwynnol, adolygol a throsglwyddo) ac roedd 87.9% o fewn amserlen. Mae'r gwasanaeth yn cadw llygad barcud ar berfformiad yn y maes yma ac yn cadw gwybodaeth fanwl am y rhesymau pam nad ydi rhai cynadleddau yn digwydd o fewn amserlen. Fel uchod, nid oes unrhyw reswm penodol, nodweddiadol yn arddangos ei hun ond mae'n gyfuniad o resymau e.e. teulu ddim ar gael i fynychu, dim cworwm proffesiynol (gofyn statudol ar gyfer proses benderfynu). Mae'r materion o ran diffyg cworwm wedi ei godi gydag asiantaethau penodol ac yn y Grŵp gweithredol diogelu ar draws Gwynedd a Môn, ac mae yn derbyn sylw gan yr heddlu yn benodol i geisio gwella'r sefyllfa.<br><br>Mae perfformiad adolygiadau statudol plant mewn gofal wedi gwella yn sylweddol dros gyfnod o flynyddoedd Mae niferoedd plant mewn gofal yng Ngwynedd wedi cynyddu yn ystod 15/16 - o | Marian Parry Hughes |

| Cyf | Meysydd i'w gwella (Atodiad 2) | Sylwadau perthnasol AGGCC (Atodiad 2) | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | | | 186 ar ddiwedd chwarter 1 i 202 ar ddiwedd chwarter 2. Mae hyn yn gynnydd sylweddol ac mae yn rhoi pwysau ychwanegol ar swyddogion adolygu annibynnol sydd yn cadeirio holl adolygiadau plant mewn gofal. O ystyried mai'r argymhelliad ymarfer da cenedlaethol ar gyfer swyddogion adolygu annibynnol yw eu bod yn dal oddeutu 50 achos yr un ar gyfer adolygu, mae'r swyddogion sydd gennym mewn lle (2.6FTE) yn gweithio yn llawer uwch na'u capasiti. Er hynny mae perfformiad chwarter 1 a 2 eleni yn galonogol gan fod perfformiad o ran amseroldeb yn 89.4% ar ddiwedd chwarter 1 a 91.3% ar ddiwedd chwarter 2. | |
| 3.3 | Amseroldeb adolygiadau amddiffyn plant | 6.23 - Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd. | Fel y nodir uchod yn 3.2 mae cynnal cynadleddau adolygol amddiffyn plant o fewn amserlen yn her yn bresennol am y rhesymau a nodir uchod. Mae perfformiad chwarter 1 a 2 wedi bod yn heriol – 71% ar ddiwedd chwarter 1 a 77% ar ddiwedd chwarter 2. Mae dangosyddion mesur presenoldeb cynadleddau achos amddiffyn plant yn dangos fod gweithwyr cymdeithasol yn bresennol yn 100% ohonynt, ond fod her i sicrhau fod cworwm o asiantaethau partneriaid ymhob cynhadledd adolygol. Pan nad oes cworwm mae'r cadeirydd yn gorfod gwneud penderfyniad i unai barhau a'r gynhadledd neu i ohirio hyd nes bydd cynrychiolaeth gofynnol yn bresennol er mwyn gwneud penderfyniad. Mae'r materion yma yn derbyn sylw penodol gyda'r asiantaethau hynny ar lefel weithredol a strategol. | Marian Parry Hughes |
| 3.4 | Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal | 6.31 - Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y cyngor o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%). | Mae'r gwasanaeth wedi bod yn cydweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ers nifer o flynyddoedd i geisio datrys y problemau o ran cynnal asesiadau iechyd ar gyfer plant mewn gofal yn amserol. Mae'r Panel Rhiant Corfforaethol wedi bod yn dal y Bwrdd iechyd i gyfrif er mwyn herio ymarfer a sicrhau fod gwelliannau yn y drefn yn digwydd. Er hynny, mae'r cynnydd wedi bod yn hynod o siomedig, ond yn ystod y flwyddyn hon rydym yn gweld gwelliant yn y perfformiad yn erbyn y dangosydd hwn gan fod canlyniadau chwarter 1 yn dangos fod 60.7% wedi eu cynnal o fewn amser a 63.4% ar ddiwedd chwarter 2. Mae hyn yn galonogol ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd yn lleol (60%). Mae yn parhau i fod yn is na chyfartaledd Cymru, ond rydym o'r farn ein bod wedi datrys y problemau mwyaf o ran trefniadau a phrosesau er mwyn gweld cynnydd parhaus. | Marian Parry Hughes |
| | | 7.8 - Mae sylw corfforaethol wedi ei roi i gefnogi | Mae'r prosiectau trawsffurfiol sydd wedi eu comisiynu trwy'r Cynllun | Aled Davies / |

| Cyf | Meysydd i'w gwella (Atodiad 2) | Sylwadau perthnasol AGGCC (Atodiad 2) | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| 4.1 | Gweithredu rhaglenni moderneiddio | moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol ac ymateb i'r Ddeddf. Mae'r ddau adolygiad sylweddol o drefniadau gweithredol mewn gwasanaethau plant ac oedolion wedi cael eu cefnogi gan y gwasanaeth corfforaethol. Mae'r strwythur adrannol newid wedi caniatáu aliniad agosach rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau ataliol. | Strategol yn derbyn cefnogaeth a chraffu trwy drefniadau Paneli Cyflawni'r Cyngor, ble mae arweinydd y prosiect yn adrodd ar gynnydd y prosiectau yn erbyn y cerrig milltir sydd wedi eu cytuno. Yn dilyn hyn mae'r Aelod Cabinet perthnasol yn adrodd ar berfformiad y prosiectau trawsffurfiol i'r Cabinet mewn cylch 12 wythnos. Mae'r prosiectau trawsffurfiol sydd wedi eu comisiynu yn rhoi sylw i newidiadau mewn ymarfer a chyfrifoldebau - a hynny o fewn disgwyliadau'r ddeddf.<br><br>Yn benodol yn y maes Oedolion mae'r prosiectau canlynol:<br><br>**G1 – Her Gofal –** Ceisio sicrhau fod pobl yn glir o'r her sy'n ein hwynebu i ysgogi a chefnogi cymunedau i gyfrannu drwy weithio'n gymunedol.<br><br>**G2 – Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion** – Ail ddylunio ein ffordd gyfredol o weithio.<br><br>**G3 – Ail-strwythuro Adran Oedolion Iechyd a Llesiant** - Sicrhau fod strwythur staffio'r adran yn addas ar gyfer y dyfodol.<br><br>Yn benodol yn y maes Plant mae'r prosiect canlynol:<br><br>**P9 – Sicrhau ystod o wasanaethau ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd** – Darparu cefnogaeth ar gyfer grwpiau bregus o blant a phobl ifanc er mwyn eu galluogi i fyw yn annibynnol heb orfod bod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol.<br><br>Yn ogystal â hyn mae trefniadau rheolaeth rhaglen mewn lle yn y maes Oedolion er mwyn sicrhau fod trefniant ac atebolrwydd clir mewn lle i fod yn arwain newid sylweddol yn y maes.<br><br>Bydd y gefnogaeth gorfforaethol yn parhau er mwyn gweithredu rhaglenni moderneiddio yn y maes gofal. | Marian Parry Hughes |
| 4.2 | Craffu a goruchwylio rhoi rhaglenni moderneiddio ar waith | 1.5 - Bydd y newidiadau a fwriedir mewn gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn am newid mewn arfer a diwylliant sefydledig. Mae natur a graddfa'r newidiadau mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn achosi risgiau sylweddol y bydd angen lefel uchel o graffu a chymorth arnynt er mwyn eu cyflenwi mewn dull amserol. Dylai'r trefniadau newydd, gydag aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc, ei gwneud yn haws i weld y datblygiadau gwasanaeth newydd ac i | Fel sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad, bydd cefnogaeth dau Aelod Cabinet yn y maes hwn yn allweddol i sicrhau llwyddiant y rhaglenni moderneiddio. Mae'r ddau aelod wrth gwrs yn atebol am y newid sydd yn digwydd o fewn eu meysydd ond hefyd, fel rhan o drefniadau rheoli perfformiad y Cyngor, yn craffu'n barhaus gan gynnig cefnogaeth lle bo angen. Mae hyn yn cael ei wneud yn ffurfiol trwy'r Paneli Cyflawni a'r Panel Strategol Diogelu. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau yn craffu'r prif raglenni trawsffurfio'r maes - megis **G2 - Gweithio'n integredig ar yr hyn sy'n cyfri i unigolion.**<br><br>Fel rhan o'r newid diwylliant sydd ar waith yn y Cyngor, o fod yn | Awen Morwena Edwards |

| Cyf | Meysydd i'w gwella (Atodiad 2) | Sylwadau perthnasol AGGCC (Atodiad 2) | Trefniadau ar waith | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|---|---|
| | | ymgysylltu â'r bwrdd iechyd. | sicrhau ein bod yn rhoi pobl Gwynedd yn ganolog i bopeth wnawn, rydym yn anelu at gael sefydliad sydd yn craffu'n barhaus ein penderfyniadau. | |

Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Adroddiad Gwerthuso Perfformiad 2014–15

## Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd



Hydref 2015

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r prif feysydd lle bu cynnydd a'r meysydd lle mae angen gwella yng Ngwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Gwynedd ar gyfer y flwyddyn 2014–15

OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26666 ISBN digidol 978 1 4734 4892 6

**Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2014-2015**

**Awdurdod Lleol:** **Cyngor Gwynedd**

**Mae'r adroddiad hwn yn nodi gwerthusiad AGGCC o berfformiad Cyngor Gwynedd wrth gyflenwi ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol.**

## 1. Crynodeb

1.1. Mae'r cyngor wedi gwneud cynnydd cadarn yn gwella gwasanaethau cymdeithasol a pharatoi ar gyfer newidiadau i ddod. Mae gan y cyngor weledigaeth i roi cymorth i bobl yn eu cymunedau mewn ffyrdd creadigol, hyblyg a chost effeithiol, a gwella profiadau a dewisiadau i bobl ag anghenion cymhleth. Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu gwasanaethau ar y llinellau hyn ar y cyd ag egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae mwy o ymgysylltiad a chefnogaeth gan y bwrdd iechyd bellach, yn flaenorol roedd y ddiffyg hwn wedi amharu ar ddatblygiad.

1.2. Mae gwell aliniad rhwng y cyngor ehangach a'r adrannau sy'n cynnig gwasanaethau cymdeithasol, fel y gwelir yn y blaenoriaethau a dulliau gweithredu sy'n cael eu rhannu. Cafwyd cefnogaeth hefyd i'r adran gyda'i hadolygiadau diweddar o'r gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau plant.

1.3. Mae'r ymdrechion i weithio yn fwy cost effeithiol ac effeithlon, ynghyd â'r codiadau sydd wedi eu cynllunio mewn treth cyngor, wedi galluogi'r Cyngor i haneru ei ddiffyg ariannol o £50 miliwn i £25 miliwn, gydag arbedion effeithlonrwydd pellach o £18 miliwn i'w gwireddu dros y blynyddoedd nesaf.

1.4. Mae'r perfformiad mewn rhai meysydd o wasanaethau cymdeithasol wedi bod yn gwella'n gynyddol bob blwyddyn, ac mae meysydd cadarn o arfer a chanlyniadau da megis ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae newid mewn cynllunio gwasanaethau wedi bod yn araf mewn meysydd eraill, megis gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a'r strategaeth llety i oedolion.

1.5. Bydd y newidiadau a fwriedir mewn gwasanaethau cymdeithasol yn gofyn am newid mewn arfer a diwylliant sefydledig. Mae natur a graddfa'r newidiadau mae gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu ar hyn o bryd yn achosi risgiau sylweddol y bydd angen lefel uchel o arweinyddiaeth a chymorth arnynt er mwyn eu cyflenwi mewn dull amserol. Dylai'r trefniadau newydd, gydag aelod cabinet ar gyfer

oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc, ei gwneud yn haws i weld y datblygiadau gwasanaeth newydd ac i ymgysylltu â'r bwrdd iechyd.

1.6. Mae'r cyngor yn perfformio'n gryf yn rhoi gofynion ‘Mwy na Geiriau’ – y fframwaith ar gyfer y Gymraeg – ar waith.

## 2. Yr ymateb i’r meysydd i'w gwella a nodwyd y llynedd

| Maes i'w wella a nodwyd y llynedd | Cynnydd yn 2014-2015 |
|---|---|
| Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn gwasanaethau i oedolion. | Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn cyd-gynllunio a chyd-ddatblygu gwasanaethau i oedolion. |
| Cynllunio strategol gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr mewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed. | Cafwyd rhywfaint o gynnydd yn sefydlu cyfarfodydd rheolaidd gydag uwch-reolwyr yn y bwrdd iechyd. Mae effaith y berthynas well hon eto i gael ei gwerthuso. |
| Defnyddio gwybodaeth gan baneli plant sy'n derbyn gofal i ddisgrifio anghenion a thueddiadau'r boblogaeth. | Mae cynnydd wedi ei wneud o ran arferion adrodd y paneli a fydd yn galluogi'r cyngor i ganfod patrymau dros gyfnod o amser. |
| Amseroldeb asesiadau cychwynnol mewn gwasanaethau plant. | Gwelliant bychan mewn perfformiad. Mae trefniadau newydd wedi'u gwneud i wella amseroldeb ymhellach. |
| Gwelliant parhaus i leihau nifer y plant sy'n cael eu hail-atgyfeirio. | Cafwyd gwelliant mewn perfformiad bob blwyddyn. Mae dealltwriaeth gynyddol o'r data a'r gwahaniad rhwng hysbysiadau ac atgyfeiriadau. |
| Ymwybyddiaeth o wasanaethau eiriolaeth a defnydd ohonynt. | Cafodd y gwasanaeth eiriolaeth ei roi i dendr yn rhanbarthol unwaith eto yn 2014, ac mae trefniadau ar waith yn awr i godi ymwybyddiaeth. |
| Cysondeb wrth ymateb i gwynion. | Gwell perfformiad – mwy o reoli a goruchwylio cwynion. |
| Mynediad at ofal iechyd a llety i blant sy’n derbyn gofal. | Mae'r perfformiad mewn perthynas ag asesiadau iechyd plant sy'n derbyn gofal yn parhau i fod ymhell y tu ôl i gyfartaledd Cymru. Mae llety symud ymlaen yn dal angen ei ddatblygu. Mae’r Cyngor wedi sefydlu’r cynllun ‘Pan fydda i’n Barod’ sydd yn yn cynnig opsiwn pellach i blant sy’n derbyn gofal. |
| Gwerthusiad o effaith y strwythurau diogelu corfforaethol | Mae diogelu'n cael blaenoriaeth uchel o fewn y cyngor. Ni welwyd |

| | |
|---|---|
| | tystiolaeth o effaith y trefniant newydd hyd yma. |
| Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant. | Mae perfformiad o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella ychydig, ond mae'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (85% o'i gymharu â 93%). Mae hwn yn parhau i fod yn faes i'w wella. |
| Codi ymwybyddiaeth o oblygiadau a gofynion y Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a gwella'r trefniadau llywodraethu ar gyfer gweithredu'r trefniadau. | Cafwyd cynnydd sylweddol mewn ceisiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, ac mae'r cyngor wedi cynyddu nifer yr aseswyr. |
| Sicrhau ansawdd. | Mae uned diogelu ac ansawdd newydd wedi cael ei sefydlu. Mae angen gweithio trwy'r prosesau newydd. |
| Cymorth rhiantu corfforaethol gan y cyngor a phartneriaid i blant sy'n derbyn gofal. | Mae aelodau newydd ar y Panel Rhiantu Corfforaethol, ac mae mwy o gymorth corfforaethol i blant sy'n derbyn gofal. |

## 3. Ymweliadau ac arolygiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn

3.1. Mae ymweliadau â safleoedd yn rhoi cyfle i AGGCC siarad â phobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau a'u teuluoedd, a'r staff sy'n rheoli a gweithio yn y gwasanaethau. Yn ystod 2014-2015, cynhaliwyd ymweliadau â:

- Thai Gofal Ychwanegol Cae Garnedd.
- Tîm Integredig Iechyd a Gofal (wedi eu lleoli yn Ysbyty Alltwen) i bobl hŷn a phobl ag anableddau.

3.2. Cyfarfu AGGCC hefyd ag uwch-swyddogion y cyngor trwy gydol y flwyddyn i adolygu perfformiad gwasanaethau cymdeithasol a thrafod cynnydd gyda'r meysydd i'w gwella a nodwyd yng ngwerthusiad perfformiad y llynedd. Ymgysylltodd y cyngor yn effeithiol ag AGGCC, ac fe hwylusodd fynediad i alluogi ymweliadau â safleoedd.

3.3. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd AGGCC arolygiadau o wasanaethau a reoleiddir sy'n cael eu rhedeg gan y cyngor a chan weithredwyr annibynnol. Roedd hyn yn cynnwys adolygiadau o'r gwasanaeth mewnol ar gyfer maethu, y gwasanaeth lleoli oedolion, cartrefi gofal, a

gwasanaethau gofal cartref. Mae manylion y rhain yn yr adroddiadau sydd wedi eu cyhoeddi, ac maent ar gael ar wefan AGGCC.

## 4. Meysydd y bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol arnynt y flwyddyn nesaf

4.1. Mae nifer o feysydd penodol ar gyfer gwella wedi cael eu nodi yng nghorff yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd y cyngor mewn perthynas â'r rhain yn cael ei drafod gyda'r cyngor yn ystod cyfarfodydd ymgysylltu rheolaidd yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Bydd meysydd penodol ar gyfer camau dilynol yn cynnwys:

- Gwelliannau yn yr arfer o amddiffyn oedolion agored i niwed.
- Moderneiddio gwasanaethau anableddau dysgu.
- Strategaeth a gwasanaethau comisiynu iechyd meddwl.

## 5. Cynllun arolygu ac adolygu AGGCC ar gyfer 2015-2016

- Adolygiad cenedlaethol o ofal cartref.
- Adolygiad cenedlaethol o wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu.
- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

## 6. I ba raddau mae’r profiadau a’r canlyniadau ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth yn gwella eu lles?

### <u>Oedolion</u>

### Trosolwg

6.1. Mae'r cyngor yn symud tuag at ei nod o sicrhau bod pobl yn derbyn y gofal cywir ar yr adeg gywir, yn y lle cywir a gan y gweithwyr proffesiynol cywir. Mae'r cyngor wedi gweithio mewn partneriaeth â'r bwrdd iechyd i gyflawni hyn, ac enghraifft o'r gwasanaethau a ddatblygwyd i fodloni anghenion pobl ag anghenion cymhleth yw'r pedair uned tymor byr yng nghartrefi gofal y cyngor er mwyn osgoi derbyn i ysbytai. Mae cyfraddau oedi wrth ryddhau cleifion o'r ysbyty oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol yn parhau i fod yn sylweddol is na’r cyfartaledd ar gyfer Cymru ac yn is nag yn y flwyddyn flaenorol.

6.2. Gwellodd perfformiad o ran cwblhau adolygiadau gofal blynyddol, ac roedd yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (83% o'i gymharu ag 80%). Yn ystod y flwyddyn, nodwyd y dylai'r cyngor a'r bwrdd iechyd sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau ac arferion effeithiol ar y cyd i sicrhau bod anghenion gofal preswylwyr cartrefi gofal yn cael eu hail-asesu'n amserol.

6.3. Mae nifer y bobl y rhoddodd y cyngor gymorth iddynt mewn cartrefi gofal i bob 1,000 o'r boblogaeth dros 65 oed ar ddiwedd y flwyddyn wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae hyn yn dal i fod gyda'r uchaf yng Nghymru (24 o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 19). Mae'r cyngor wedi rhoi cymorth i lawer mwy o bobl mewn cartrefi cymunedol na'r cyfartaledd yng Nghymru am flynyddoedd lawer, ac mae pobl yn fwy tebygol o fyw mewn cartrefi gofal sy'n eiddo i'r cyngor yng Ngwynedd nac mewn cynghorau eraill yng Nghymru.

6.4. Canfu arolygiadau AGGCC o gartrefi gofal i oedolion y cyngor fod preswylwyr yn siarad yn gadarnhaol am ansawdd y gofal roeddent yn ei dderbyn. Nododd arolygiadau o'r gwasanaethau hyn bryderon ynghylch gweinyddu meddyginiaeth a chynnal rheolwyr cofrestredig effeithiol, ond cymerodd y cyngor gamau gweithredu amserol ac effeithiol pan godwyd pryderon.

6.5. Roedd tystiolaeth yn y prosiect Corneli Cudd o arfer da oedd wedi cael ei ddatblygu mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor a'i chanolfan gelfyddydau ac arloesedd, Pontio. Chwaraeodd cerddor a phobl ifanc o'r ysgol leol gerddoriaeth a chanu caneuon Cymraeg, ac roedd y gerddoriaeth a'r canu'n rhan hanfodol o hunaniaeth a phrofiadau bywyd cynnar llawer o'r bobl hyn. Gwellodd y gerddoriaeth a'r cynnwrf ansawdd bywyd y bobl oedd yn byw yn y cartrefi.

6.6. Mae diogelu'n flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae wedi rhoi trefniadau corfforaethol ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen iddo bellach roi newidiadau ar waith yn ei brosesau diogelu oedolion. Mae gan y cyngor bolisi corfforaethol ar gyfer diogelu plant ac oedolion agored i niwed, ac mae ganddo banel strategol sefydledig o aelodau ac uwch-swyddogion. Caiff y panel strategol gymorth gan banel gweithredol gyda rheolwyr o bob un o adrannau'r cyngor. Mae tystiolaeth bod y prosesau diogelu corfforaethol wedi arwain at gamau gweithredu sydd wedi hyrwyddo diogelu ledled y cyngor. Mae'r panel wedi gwneud hyn trwy geisio gwybodaeth ac adroddiadau am ddigwyddiadau lleol penodol o fewn gwasanaethau'r cyngor, ac mae wedi dysgu o brofiadau unigolion agored i niwed. Mae'r panel diogelu strategol yn gweithredu rhaglen waith sy'n seiliedig ar ddysgu gan achosion lleol a chenedlaethol, yn edrych ar y gwersi gan archwiliadau, ac yn datblygu hyfforddiant, polisïau newydd, a dangosfwrdd diogelu. Mae tystiolaeth bod y panel

gweithredol ac adrannau'r cyngor yn rhoi cynlluniau ar waith i wella arferion diogelu. Mae angen sicrhau bod y gwelliannau a nodwyd o ran diogelu yn digwydd yn gyson ac yn amserol.

6.7. Yn ystod y flwyddyn, cafwyd 178 o atgyfeiriadau oedolion agored i niwed, chwech yn llai nag yn y flwyddyn flaenorol. O'r atgyfeiriadau hyn, cwblhawyd 100% ohonynt gyda'r risg yn cael ei reoli. Cyfrannodd y cyngor at Adolygiad o Arfer Gwasanaethau Oedolion, a nododd fod angen gwelliannau yn arferion amddiffyn oedolion agored i niwed y cyngor. Pan fyddant yn weithredol, bydd y rhain yn cynyddu ymwneud darparwyr gofal ac yn gwneud yr archwiliad a'i ganlyniad yn fwy eglur. Bydd diogelu oedolion yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016.

6.8. Llwyddodd y cyngor i reoli pedair proses uwchgyfeirio pryder ynghylch cartrefi gofal a gwasanaeth gofal cartref, ble cafwyd pryder ynghylch ansawdd y gofal a ddarparwyd. Roedd hyn ddwywaith cymaint ag yn y flwyddyn flaenorol. Gweithiodd y cyngor yn effeithiol i reoli a chau asiantaeth gofal cartref trwy ddefnydd da o dîm brocera'r cyngor a gwasanaethau ac adnoddau'r cyngor ei hun. Roedd y cyngor yn gweithio'n dda gyda phartneriaid allweddol ac yn gwneud cynlluniau wrth gefn gofalus.

6.9. Mae’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid yn darparu fframwaith cyfreithiol i amddiffyn pobl sy'n byw mewn cartrefi gofal ac ysbytai ac sy'n agored i niwed oherwydd anhwylder meddyliol a diffyg galluedd meddyliol. Cafodd y cyngor gynnydd sylweddol (o saith i 365) mewn ceisiadau ar gyfer awdurdodiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid, sydd wedi arwain at oedi o ran ymgymryd ag asesiadau. Mae'r cyngor wedi ymateb trwy benodi cydgysylltydd a chynyddu nifer yr aseswyr budd pennaf.

6.10. Mae'r cyngor wedi dechrau datblygu strategaeth comisiynu iechyd meddwl, a bydd gwasanaethau iechyd meddwl yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn 2015-2016. Canfu'r cyngor fod angen moderneiddio ei wasanaethau anableddau dysgu a datblygu amrywiaeth o wasanaethau sy'n canolbwyntio ar y person i gynyddu annibyniaeth. Mae'r cyngor yn mabwysiadu'r model datblygu sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer gwasanaethau anabledd dysgu, ac mae hwn yn ceisio gwireddu dyheadau'n well wrth wneud pobl yn annibynnol. Mae'r agwedd hon yn hyrwyddo dysgu sgiliau newydd ac yn helpu pobl i wneud cymaint o bethau ag y gallant drostynt eu hunain. Mae hwn yn faes y bydd AGGCC yn cymryd camau dilynol mewn perthynas ag ef yn y flwyddyn i ddod. Yn ystod 2014-2015, mae'r cyngor hefyd wedi ymgymryd ag adolygiad o wasanaethau i oedolion.

Mae'r cyngor yn nodi y bydd yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2015.

6.11. Mae nifer y bobl sy'n defnyddio taliadau uniongyrchol wedi cynyddu i 120, gan alluogi'r bobl hyn i gael mwy o ddewis, hyblygrwydd a rheolaeth wrth gynnal eu hannibyniaeth. Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y cyngor grŵp gorchwyl, a gyda defnyddwyr gwasanaeth, fe gyd-gynhyrchodd ganllawiau newydd ar gyfer taliadau uniongyrchol, ac mae cynlluniau ar y gweill i gyd-gynhyrchu'r trefniadau yn y flwyddyn sydd i ddod.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol (oedolion)**

**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.12. Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor wedi datblygu gwasanaethau ataliol gyda phartneriaid, gan agor ail adnodd gofal ychwanegol yn ystod mis Rhagfyr 2014 ym Mangor, ac mae'n bwriadu agor un arall ym Mhorthmadog yn 2017. Cafodd adnodd gofal ychwanegol Cae Garnedd ym Mangor ei ddatblygu gan bartneriaeth gyda Thai Gogledd Cymru, ac mae'n darparu llety o ansawdd uchel. Dywedodd y bobl oedd yn byw yng Nghae Garnedd eu bod yn derbyn gofal o ansawdd uchel. Roedd yr adnodd yn sefydlu ei weithgareddau cymunedol a chymdeithasol. Dywedodd y gofalwyr oedd yn gweithio yn yr adnodd gofal ychwanegol eu bod yn cael eu cefnogi'n dda ac yn gallu darparu gofal gwell a mwy diogel yn y datblygiad newydd.

6.13. Cafodd y rhaglen Heneiddio'n Dda ei datblygu yn ystod y flwyddyn mewn partneriaeth ag Age Cymru, gyda chanolfannau ym Mlaenau Ffestiniog, Penrhyndeudraeth, Cricieth, Porthmadog a Thremadog yn cael eu sefydlu ar yr egwyddorion ataliol o gadw pobl hŷn yn egnïol ac yn iach a gwella a chreu cyfleoedd cymdeithasol iddynt yn eu cymunedau lleol.

6.14. Fe wnaeth y cyngor asesu neu adolygu anghenion 241 o ofalwyr oedolion yn 2014-2015, sy'n ostyngiad o'r 298 o ofalwyr a gawsant eu hasesu yn ystod y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn destun pryder gan fod nifer y rhai sy'n gofalu am oedolion sy'n derbyn asesiad o'u hanghenion eu hunain wedi codi dros y pedair blynedd diwethaf yng Nghymru, er bod y nifer wedi cwympo'n barhaus yng Ngwynedd. Nifer y gofalwyr oedolion a gawsant eu hasesu neu eu hail-asesu ar eu hawl eu hunain yn ystod y flwyddyn y darparwyd gwasanaeth ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn oedd 132.

6.15. Yn ystod y flwyddyn, adolygodd y cyngor pa mor effeithiol oedd y gwasanaeth ailalluogi, a nododd i'r gwasanaeth gynhyrchu arbedion o un filiwn o bunnau ac nad yw 58% o bobl sy'n derbyn y gwasanaeth

angen gwasanaeth am o leiaf un flwyddyn.  Nodwyd y gellid targedu'r gwasanaeth ymhellach i wella effeithlonrwydd, a gellid canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau cytûn i'r dinesydd yn hytrach na cheisio lleihau defnydd o'r gwasanaeth yn y dyfodol.

**Integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn ag anghenion cymhleth**

6.16. Rhoddwyd blaenoriaeth i integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol gan y bwrdd gwasanaeth lleol, a chafodd ei gyflenwi gan y tîm trawsnewid integredig a'r fforwm sirol, sydd yn cynnwys y trydydd sector a phartneriaid tai.  Ategwyd at weithio integredig gan rywfaint o gyd-leoli a gwell cyfathrebu rhwng systemau technoleg gwybodaeth. Cafodd rheolwr trawsnewid ei benodi ar y cyd ar draws gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac fe ddangosodd cynlluniau wedi eu cyllido gan y gronfa gofal canolradd ganlyniadau gwell i bobl. Un enghraifft yw'r defnydd o fferyllydd cymunedol, sy'n ymweld â phobl yn eu cartrefi ac sydd wedi gwella defnyddio meddyginiaeth yn effeithiol, lleihau gwastraff, a gwella lles unigolion.

6.17. Symudodd y cyngor a'r bwrdd iechyd tuag at weithio saith diwrnod yr wythnos a galluogi cleifion i gael eu rhyddhau o'r ysbyty dros y penwythnos.  Bydd lolfa ryddhau integredig yn Ysbyty Gwynedd yn cyd-fynd â hyn, gyda'r nod o wella cyfathrebu amlddisgyblaethol a lleihau cyfnod amser cleifion yn yr ysbyty.

6.18. Gwnaeth y Cyngor gynnydd sylweddol wrth gychwyn y ffordd newydd o weithio yn Ysbyty Alltwen, Porthmadog, lle mae tîm o staff gwasanaethau cymdeithasol a iechyd yn gweithioar y cyd i ddarparu gwasanaethau i bobl hŷn a phobl ag anableddau.  Cafwyd ymgysylltu cryf gyda'r bwrdd iechyd i ddatblygu'r gwasanaeth hwn trwy werthuso'r dull traddodiadol o weithio, sefydlu gwerthoedd newydd, a darparu cymorth ar lefel uwch i roi'r rhaglen ar waith. Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar bobl ac ar weithredu egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gan ddefnyddio agwedd 'yr hyn sy'n bwysig' ac adeiladu ar gryfderau pobl.  Nod y gwasanaeth yw  gwneud penderfyniadau amserol mor effeithiol â phosibl.  Mae arweinwyr yn y cyngor a'r bwrdd iechyd wed bod ar flaen y gad yn herio a newid arferion, trwy oresgyn rhwystrau biwrocrataidd a chael gwared ar brosesau aneffeithlon.    Bydd y cyngor a'r bwrdd iechyd yn wynebu heriau wrth osod y gwerthoedd a'r dulliau gwaith a ddatblygwyd yn y rhaglen beilot yn y brif ffrwd ar raddfa fwy.  Gallai'r dull newydd o weithio achosi newidiadau sylweddol o bosibl ac arbedion mewn gwasanaethau i oedolion, a bydd yn dylanwadu ar y cyfeiriad newydd i wasanaethau i bobl hŷn.

**Meysydd o gynnydd**

- Gweithio'n strategol ac yn weithredol gyda'r bwrdd iechyd
- Datblygu arferion sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).

**Meysydd i'w gwella**

- Diogelu oedolion
- Cymorth i ofalwyr

**<u>Plant a phobl ifanc</u>**

**Trosolwg**

6.19. Roedd perfformiad gwasanaethau i blant yn debyg i'r flwyddyn flaenorol, gyda chanlyniadau da'n cael eu cyflawni i blant sy'n derbyn gofal ac angen i wella perfformiad o ran gwaith asesu, rheoli gofal, ac adolygu o fewn gwasanaethau plant.

6.20 Mae rheolaeth y cyngor o atgyfeiriadau wedi gwella bob blwyddyn. Mae hysbysiadau ac atgyfeiriadau yn cael eu gwahanu, gan arwain at leihad yn nifer yr atgyfeiriadau plant mewn angen. Fodd bynnag, mae'r gyfradd ail-atgyfeirio'n dal i fod yn uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru (26% o'i gymharu â 21%).

6.21. Mae perfformiad o ran amseroldeb asesiadau cychwynnol wedi gwella, ond mae'n dal i fod yn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (70% o'i gymharu â 76%), ac mae'n dal yn faes y mae angen i'r cyngor ei wella.

6.22. Darparodd y gwasanaeth gofal cartref i blant anabl ofal o ansawdd da, wedi ei deilwra'n unol ag anghenion, dewis a hoffterau unigol. Dylai'r gwasanaeth ddatblygu gwell gwerthusiad o'i gapasiti i ddarparu'r gwasanaeth sydd ei angen.

6.23. Roedd nifer y plant ar y gofrestr amddiffyn plant ar ddiwedd y flwyddyn yn debyg i'r tair blynedd diwethaf yn dilyn cynnydd yn 2012-2013. Mae perfformiad y cyngor o ran cynnal cynadleddau amddiffyn plant cychwynnol wedi gwella fymryn, ond mae'n is na'r cyfartaledd yng Nghymru (85% o'i gymharu â 93%). Cafwyd cwymp hefyd ym mherfformiad y cyngor o ran cynnal adolygiadau statudol a chynadleddau adolygu amddiffyn plant. Cyfrannodd colli'r cydlynydd amddiffyn plant a salwch staff at y cwymp mewn perfformiad yn y meysydd hyn. Mae amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant yn dal i

fod yn faes sydd angen ei wella. Hefyd, mae angen i'r cyngor gynnal a gwella amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, sy'n cael eu rheoli gan yr uned diogelu ac ansawdd ar hyn o bryd.

6.24. Profiad AGGCC yn ystod y flwyddyn oedd bod materion diogelu'n cael sylw'n brydlon, a bod cyfarfodydd strategaeth a phrosesau amddiffyn plant yn cael eu rheoli'n dda.

6.25. Mae'r cyngor wedi cyflawni o ran cyflenwi cynlluniau gweithredu i wella gwasanaethau diogelwch yn dilyn dynladdiad domestig ac adolygiad achos difrifol yr adroddwyd amdanynt y llynedd. Cafwyd dau adolygiad aml-asiantaeth yn ystod y flwyddyn ac un arall sydd wedi datblygu yn adolygiad estynedig ar arferion gwasanaethau plant. Mae swyddogion yn y cyngor wedi ymgymryd â hyfforddiant adolygu arferion gwasanaethau plant ac wedi cyfrannu at adolygiadau ledled y rhanbarth. Mae'r cyngor wedi cymryd camau gweithredu mewn perthynas â gwelliannau a nodwyd yn adolygiad thematig AGGCC ‘Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer Plant sy’n Derbyn Gofal a’r Rhai sy’n Gadael Gofal sy’n dangos Ymddygiad Agored i Niwed neu Ymddygiad Peryglus’. Gwnaed cynnydd o ran gwella dealltwriaeth o wybodaeth paneli a'r her a ddarparir gan aelodau etholedig. Fodd bynnag, mae cynnydd yn araf mewn meysydd fel gwella darparu gwasanaethau iechyd corfforol a meddyliol i blant sy'n derbyn gofal.

**Blaenoriaethau cenedlaethol allweddol**


**Gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar**

6.26. Daeth gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar dan reolaeth yr adran plant a chefnogi teulu yn ystod y flwyddyn, ac mae hyn wedi bod o gymorth o ran gweithio'n agosach gyda'r timau. Bydd hyn yn caniatáu gwell cynllunio gofal i fodloni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Yn ystod y flwyddyn, mae'r cyngor wedi datblygu ei wasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar. Mae ymestyn y ddarpariaeth Dechrau'n Deg i Fethesda a Thal-y-sarn wedi cynyddu nifer y plant o oedran cyn ysgol sy'n derbyn cymorth i wella eu sgiliau cyn mynd i'r ysgol yn sylweddol. Mae cynlluniau datblygu pellach i ymestyn y ddarpariaeth i Ddolgellau, Pen-y-groes a Gallt y Sil. Rhoddodd y tîm o amgylch y teulu – Gyda'n Gilydd – gymorth i 85 o deuluoedd, a chanfu ymchwil gan Brifysgol Cymru fod 80% o'r teuluoedd wedi nodi bod y gwasanaeth wedi rhoi cymorth iddynt wneud gwelliannau hir dymor. Cafwyd cadarnhad allanol hefyd gan werthusiad gan Brifysgol Oxford Brookes bod y gwasanaeth o ansawdd uchel a'i fod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i deuluoedd. Mae'r Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd, sy'n gweithio'n agos â theuluoedd i

gyflawni newid mewn ymddygiad, yn weithredol, ac mae'r adborth yn gadarnhaol am y gwasanaeth, ond bydd gwerthusiad mwy manwl o'r gwaith yn bosibl yn 2015-2016.

6.27. Nododd adolygiad dechrau i'r diweddy cyngorfuddiannau sefydlu Tîm Trothwy Gofal i osgoi gosod plant mewn gofal trwy ymyrraeth fer, ddwys. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio ers dechrau mis Chwefror 2015. Mae’r cyngor yn nodi canlyniadau dechreuol da gan y gwasanaeth, ac mae'n bwriadu defnyddio'r sgiliau sydd wedi cael eu datblygu i drawsnewid gwasanaethau plant.

**Plant sy'n derbyn gofal**




**Niferoedd plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth**

| | 2009 | 2010 | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 | 2015 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwynedd | 163 | 179 | 175 | 195 | 203 | 185 | 194 |

6.28. Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi amrywio o gwmpas y rhifolyn 194 am y pedair blynedd diwethaf. Dros y saith mlynedd diwethaf, mae'r cyngor wedi derbyn nifer cynyddol o blant sy'n derbyn gofal yn unol â'r duedd ledled Cymru. Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd hyn yn 8.19 plentyn i bob 1,000 yng Ngwynedd (o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o 8.82).

6.29. Casglodd adolygiad y cyngor o’r dechrau i’r diwedd yn 2013-2014 y dylai'r cyngor leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal. Yn ystod y flwyddyn, daeth 64 o blant yn blant sy'n derbyn gofal, peidiodd 55 o blant â derbyn gofal, a chafodd pump eu mabwysiadu. Mae nifer cynyddol o blant wedi cael eu lleoli gyda'u rhieni dros y tair blynedd diwethaf, gan gynyddu o 6

i 17 ac i 27 yn 2015. Cwympodd nifer y lleoliadau gyda theuluoedd neu ffrindiau dros y tair blynedd (o 45 i 33 i 30 yn yr un modd). Mae nifer y lleoliadau y tu allan i'r sir wedi aros yn sefydlog o gwmpas 13, gyda lleihad yn nifer y lleoliadau maethu asiantaeth dros dair blynedd (o 31 i 28 i 24).

6.30. Am y tair blynedd diwethaf, dechreuodd lleoliad pob plentyn sy'n derbyn gofal gyda chynllun gofal ar waith, ac mae cynlluniau sefydlogrwydd yn cael eu cwblhau ar amser ymron bob tro. Roedd perfformiad o ran presenoldeb a chyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal yn dda ar y cyfan, ond roedd y cymwysterau allanol a gyflawnwyd gan blant 16 mlwydd oed ymhell uwchben cyfartaledd Cymru (pwyntiau cymhwyster allanol cyfartalog o 428 o'u cymharu â 274).

6.31. Dim ond gwelliannau bach a wnaed gan y bwrdd iechyd o ran canran y plant sy'n derbyn gofal sy'n derbyn asesiad iechyd yn ystod y flwyddyn, ac mae hwn yn dal yn sylweddol is na chyfartaledd Cymru (51% o'i gymharu ag 81%).

6.32. Eleni eto, mae gan 100% o'r rhai sy'n derbyn gofal gynllun llwybr ar waith a chynghorydd personol penodedig. Mae hyn wedi bod yr un fath am y tair blynedd diwethaf, ac mae'r cyngor yn gyson yn uwch na chyfartaledd Cymru o 90%.

6.33. Mae'r cyngor wedi rhedeg un o dri chynllun peilot sy'n ymestyn lleoliadau maethu y tu hwnt i ben-blwydd pobl ifanc yn ddeunaw oed. Mae'r cynllun 'Pan fydda i'n Barod' wedi rhoi mwy o ddewis llety i saith o bobl ifanc a'r cyfle i weithio'n agosach gyda nhw i'w paratoi ar gyfer bod yn annibynnol. Mae'r cyngor wedi gallu dysgu gan y cynllun peilot a chyfrannu at ddatblygu'r gwasanaeth.

6.34. Cynhaliodd AGGCC arolygiad o wasanaeth maethu'r cyngor ym mis Hydref a mis Tachwedd 2014, a chafwyd ei fod yn wasanaeth uchel ei barch, oedd yn ymatebol i anghenion y plant ac yn cael ei redeg yn dda. Mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu gweld yn rheolaidd gan weithwyr cymdeithasol, yn cael eu hannog i fynegi eu barn, ac yn cymryd rhan weithredol ym mywyd y teulu.

**Meysydd o gynnydd**

- Cynhaliwyd canlyniadau da i blant sy'n derbyn gofal
- Datblygu gwasanaethau ataliol

**Meysydd i'w gwella**

- Amseroldeb asesiadau cychwynnol
- Amseroldeb cynadleddau amddiffyn plant
- Amseroldeb adolygiadau plant sy'n derbyn gofal
- Amseroldeb asesiadau iechyd i blant sy'n derbyn gofal

## 7. Pa mor dda mae arweinyddiaeth, llywodraethiad a chyfeiriad y cyngor yn hyrwyddo gwelliant mewn canlyniadau a lles ar gyfer pobl sydd angen gofal a chefnogaeth

7.1. Mae'r cyngor wedi datblygu protocol sy'n disgrifio perthynas y cyfarwyddwr statudol gyda'r swyddogion allweddol. Mae'r protocol yn cael ei nodi yng nghyfansoddiad newydd y cyngor, a bydd y swyddogion allweddol yn edrych arno ac yn ei gymeradwyo. Mae'r cyngor wedi penodi swyddogion i swyddi newydd pennaeth oedolion, iechyd a lles, a phennaeth plant a chefnogi teuluoedd.

7.2. Mae absenoldeb rhai aelodau o staff allweddol wedi amharu ar allu'r cyngor i gynyddu datblygiadau yn ystod y flwyddyn, gan roi cryn alw ar y cyfarwyddwr corfforaethol a'i thîm. Gwnaeth y cyngor drefniadau i rannu cyfrifoldebau a datblygu gwaith yr adran, gan gynnwys secondio pennaeth arall o fewn y cyngor i fod yn bennaeth dros dro ar yr adran oedolion, iechyd a llesiant. Mae'r cyngor wedi wynebu heriau sylweddol wrth ddarparu capasiti ac arweinyddiaeth broffesiynol mewn gwasanaethau i oedolion yn ystod amser o newid mawr.

7.3. Mae cyfarwyddwr statudol gwasanaethau cymdeithasol wedi bod ar lefel cyfarwyddwr corfforaethol yn y cyngor am ymron i ddwy flynedd. Yn ystod y cyfnod hwn, gwelwyd tystiolaeth o well ddealltwriaeth a blaenoriaethu o faterion gwasanaethau cymdeithasol o fewn busnes y cyngor. Mae'r cyngor wedi dangos yn glir eu bod yn rhoi blaenoriaeth i faterion y maes ac yn cefnogi newidiadau mewn ymarfer, sy'n ofynnol yn ôl Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a sydd yn cael eu gweld yn digwydd yn Alltwen.

7.4. Mae capasiti hefyd wedi lleihau o ganlyniad i newidiadau yn y strwythur corfforaethol, gyda gostyngiad o dri chyfarwyddwr corfforaethol i ddau. Mae'n bwysig bod arweinyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yn cael digon o amser i ganolbwyntio ar y cyfrifoldebau statudol ac ar drawsnewid gwasanaethau.

7.5. Mae'r cyngor wedi cyfrannu at ac wedi elwa ar fentrau rhanbarthol sydd wedi datblygu gofal cymdeithasol a'r sector. Mae'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol yn flaenoriaeth i'r cyngor, ac mae Partneriaeth Gwynedd a Môn yn nodi pobl hŷn, teuluoedd camweithredol, a chymunedau cynaliadwy/adfywio cymunedol fel ei dair blaenoriaeth.

7.6. Mae'r cyngor wedi cael trafferth ymgysylltu â'r bwrdd iechyd yn y gorffennol. Fodd bynnag, ceir tystiolaeth dda bod hyn yn gwella ar lefel strategol, weithredol a gwleidyddol. Mae enghraifftiau o hyn yn cynnwys cynllun peilot Allt Wen ac ystyriaeth o berfformiad a gwelliannau mewn arferion rhyddhau o'r ysbyty ym mhwyllgor craffu'r cyngor. Mae trefniadau gweithio newydd y bwrdd iechyd ar gyfer ardaloedd wedi gwella gweithio mewn partneriaeth yng Ngwynedd.

7.7 Mae'r adrannau, drwy weithredu dull newydd o weithio, wedi canolbwyntio ar drefniadau gweithio, ymddygiad a diwylliant sy'n rhoi pobl wrth galon popeth mae'r cyngor yn ei wneud. Mae aliniad sylweddol rhwng egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, cynllun peilot Allt Wen, a Fffordd Gwynedd. Mae'r agweddau'n canolbwyntio ar bobl, yn goresgyn rhwystrau strwythurol a biwrocrataidd, ac yn cyflenwi'r hyn sy'n bwysig i bobl mewn ffordd effeithlon.

7.8. Mae sylw corfforaethol wedi ei roi i gefnogi moderneiddio gwasanaethau cymdeithasol ac ymateb i'r Ddeddf. Mae'r ddau adolygiad sylweddol o drefniadau gweithredol mewn gwasanaethau plant ac oedolion wedi cael eu cefnogi gan y gwasanaeth corfforaethol. Mae'r strwythur adrannol newid wedi caniatáu aliniad agosach rhwng gwasanaethau cymdeithasol plant a gwasanaethau ataliol.

7.9. Mae'r cyngor wedi manteisio ar gyfleoedd ac wedi parhau i ddatblygu ei wasanaethau'n raddol. Mae'r cyngor yn adnabod bod angen iddo wella cyfathrebu gyda phartneriaid er mwyn cynhyrchu gwasanaethau ar y cyd. Ni wnaeth y cyngor ddatblygu a gweithredu ei strategaethau comisiynu strategol a gyhoeddwyd yn flaenorol yn llawn. Mae angen amrywiaeth ehangach o wasanaethau, gan gynnwys gwasanaethau i bobl sydd â dementia a datblygu gwasanaethau gofal cartref mewn ardaloedd gwledig ynysig.

7.10. Y gyllideb ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer 2014-2015 oedd £59,056,000, gyda tharged o £6,084,000 ar gyfer arbedion dros y tair blynedd nesaf. Mae'r cyngor yn wynebu diffyg cyllideb o oddeutu £50,000,000 hyd at 2017-2018, ac er mwyn mynd i'r afael â hyn, efallai y bydd gostyngiad pellach yn y gyllideb gwasanaethau cymdeithasol.

Bydd hyn yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaethau cymdeithasol, a bydd angen rheoli a chraffu ar y risgiau sy'n gysylltiedig â hyn.

7.11. Yn ystod y flwyddyn, fe ymddeolodd yr aelod cabinet ar gyfer gofal wedi blynyddoedd lawer yn y swydd. Cymerwyd ei le gan aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd ac aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc. Gyda chymorth gan y trefniadau newydd yn yr adran, bydd yr aelod cabinet ar gyfer plant a phobl ifanc yn arwain ar rianta corfforaethol. Fe ddylai'r aelod cabinet ar gyfer oedolion ac iechyd gael gwell golwg ar ddatblygiadau newydd y gwasanaeth ac ymgysylltiad â'r bwrdd iechyd.

7.12. Mae'r cyngor wedi perfformio'n dda yn rhoi gofynion Mwy na geiriau – y fframwaith ar gyfer y Gymraeg – ar waith. Wrth roi ail flwyddyn ei gynllun gweithredu ar waith, mae'r cyngor wedi datblygu ei ddealltwriaeth o ble mae angen iddo wella adnoddau Cymraeg a chymryd camau ymarferol yn datblygu ei weithlu Cymraeg ei iaith. Yng nghynhadledd Mwy na Geiriau 2015, enillodd y cyngor wobrau am ddatblygu adnoddau arloesol ar gyfer gweithio gyda phobl sydd â phlant ag anghenion dysgu, gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu gwasanaethau ataliol ac arweinyddiaeth, a datblygu ysgolion iach. Mae'r cyfarwyddwr corfforaethol hefyd yn arwain ar yr agenda hwn yn genedlaethol ac yn cyfrannu at y strategaeth fydd yn dilyn Mwy na geiriau.

7.13. Mae'r cyngor wedi gwella ei oruchwyliaeth a rheolaeth o'r gwasanaeth cwynion. Yn ystod y flwyddyn, dychwelodd aelodau staff allweddol at eu swyddogaethau sylweddol yn rheoli'r broses gwyno, ac mae mwy o oruchwyliaeth o gwynion gan y cyfarwyddwr corfforaethol. Mae'r cyngor wedi rhoi'r canllawiau ar gyfer rheoli cwynion a ddaeth i rym yn 2014 ar waith, a chafwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion sydd wedi symud ymlaen at ymchwiliad ffurfiol. Nid oedd unrhyw ymchwiliadau ffurfiol cam dau yn ystod y flwyddyn. Gwnaed un cais am ymchwiliad ffurfiol cam dau, ond canfu'r ymchwilydd annibynnol fod ymchwiliad cynhwysfawr iawn eisoes wedi cael ei gwblhau ar gam un. Bu cynnydd yn nifer yr ymholiadau a sylwadau oedd yn awgrymu datrys problemau'n gynharach. Fodd bynnag, ni chafodd yr holl gwynion eu rheoli o fewn yr amserlenni disgwyliedig, a methwyd ag ymdrin ag 13% o gwynion cam un ar gyfer plant a 26% ar gyfer oedolion o fewn yr amserlenni disgwyliedig. Roedd amrywiaeth o resymau am yr oediadau hyn, ond yn bennaf roedd yr oedi oherwydd diffyg capasiti rheoli.

**Meysydd o gynnydd**

- Gwell aliniad rhwng y cyngor a'r adran
- Gweithredu Mwy na Geiriau

- Gwell goruchwyliaeth a rheolaeth o gwynion

**Meysydd i'w gwella**

- Gweithredu rhaglenni moderneiddio
- Craffu a goruchwylio rhoi rhaglenni moderneiddio ar waith